
PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 372 | HYDREF 2014

Salon Siriol t8




Yr Alban – wedi'r Reffendwm t19



Palmerston t9



## Priodasau'r Hydref



Dymuniadau gorau i Craig a Cerys Davies a briodwyd yng Nghapel Noddfa, Bow Street ar 30 Awst 2014. Cynhaliwyd y wledd ar Fferm Pentyparc, Llan-non.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hollie Bennett, merch Pauline a Roger Bennett, Penrhyn-coch, ar ei phriodas â Aaron Eifion Walters, mab Margaret ac Eifion Walters, Llanrhystud ym Mhlas Nanteos ar Fedi 28ain.



Dennis Thomas yn cyflwyno siec i Aneurin Roberts Ambiwlans Awyr Cymru – gweler y stori ar t.5



Milwr ar gefn ceffyl o flaen y Black yn Bow St

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd**
**Deunydd i law: Tachwedd 7**
**Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 19**

**HYDREF 15** Nos Fercher Aneurin a Terwyn Davies yn sôn am *Fywyd wrth ben-ôl buwch* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 17** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**HYDREF 17** Nos Wener, Gwyn Jenkins 'Ceredigion a'r Rhyfel Mawr' Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**HYDREF 18** Dydd Sadwrn Dathliadau'r Loteri yn Neuadd Gymunedol y Borth o 10.00-12.00 Digon o goffi a theisennau. Hwyl i'r plant, gyda straeon yn cael eu hadrodd gan y Coblyn o'r Mynydd Arian a chrefftau gyda Merrymakers. Y cyfan am ddim!

**HYDREF 18** Nos Sadwrn Gig Mynediad am Ddim yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau am 8.00 Tocynnau £12 ar gael o Siop Inc, Y Siop Leol, Siop y Pethe a'r Hen Lew Du.

**HYDREF 19** Nos Sul Cymanfa Ganu dan arweiniad Dai Jones, Llanilar Organyddes Eirwen Hughes yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**HYDREF 24** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**HYDREF 24** Nos Wener Sioe Ffasiwn Cylch Meithrin Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00 Caws a gwin a modelu dillad Next a Polly. Raffl. Tocynnau £7.50 yn cynnwys gwydraid o win. Tocynnau ar gael oddi wrth Jackie, Cylch Meithrin; Lynwen Garej Tŷ Mawr a Shan, Penbanc.

**HYDREF 25** Nos Sadwrn Gwerthiant pen bwrdd (table-top) yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch 10-12.00. Gellir llogi bwrdd am £5. Cysylltwch â Mrs Eileen Rowlands am fwy o fanylion 07833 958 418.

**HYDREF 25** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau nôl!

**HYDREF 29-30** Dyddiau Mercher a Iau Clwb hanner tymor Horeb

**HYDREF 30** Nos Iau 'Beth nesaf? Effaith refferendwm yr Alban ar Gymru.' Noson hwyliog o drafod yng nghwmni Mike Parker, Elin Jones, ac eraill, dan ofal cangen Rhydypennau o Blaid Cymru. Yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Croeso cynnes i bawb. Mynediad am ddim. Offer cyfieithu ar gael.

**HYDREF 31** Nos Wener Parti pen blwydd *Y Selar* yn 10 oed yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth o 8.00 ymlaen £5

**TACHWEDD 3** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl hanner tymor

**TACHWEDD 19** Nos Fercher Glesni Haf Powell yn trafod ei gwaith fel ffariar. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 21** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**TACHWEDD 21** Nos Wener Rhys Nicholas - darlith gan Rhidian Griffiths Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**TACHWEDD 22** Nos Sadwrn Cyngerdd John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc

**Camera'r Tincer**
Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.

**ytincer@googlemail.com**

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Medi 2014**

**£25** (Rhif 162) David James, Dolhuan, Llandre
**£15** (Rhif 78) Meinir W Edwards, Banc yr Eithin, Llandre
**£10** (Rhif 272) S Powell, Cartref, Comins-coch

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 17.**

**Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb. £5 y flwyddyn.**



## 30 MLYNEDD YN ÔL

Dadorchuddio'r gofeb yn Horeb Penrhyn-coch. O'r chwith i'r dde: Dr David Jenkins (Ysgrifennydd) , Y Parchg E. J. Williams, Mrs Menna Jenkins (merch cyn weinidog), Mrs Eirlys Williams, Irfon Williams (mab cyn weinidog), Dr Waddad Williams a Mrs Morfudd Morris (gweddw cyn-weinidog)
Llun: Arvid Parry Jones (O *Dincer* Hydref 1984)

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer
Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY

## Ceredigion

Ar nos Wener 17 Hydref am 7.30pm bydd noson arbennig yn cael ei chynnal yng Nghlwb Rygbi Aberaeron - noson o'r enw 'Ble ti'n mynd i fyw?'. Dyma gyfle i bobl ifanc sydd am fyw yng Ngheredigion ddod i ddysgu ychydig am faterion yn ymwneud â thai, meddwl am y drefn gynllunio mewn ffordd wahanol, trafod syniadau newydd a chael bach o sbort! Cyfarfod anffurfiol ychydig yn wahanol fydd hwn yn cynnwys sgetsys byr er mwyn ennyn diddordeb ac ysgogi trafodaeth. Cofiwch fynd i'r dudalen Facebook, Twitter (@Bletinmyndifyw) a'r wefan, www.bletinmyndifyw.webs.com, i gael rhagor o wybodaeth.

**ytincer@googlemail.com**

### Ysgol Gerdd y Lli

Dymuniadau gorau i Gregory Vearey-Roberts, Cyfarwyddwr Cerdd Ysgol Gerdd newydd i blant blwyddyn 3 i 9 fydd yn cael ei sefydlu'n fuan yn Aberystwyth. Daw mwy o fanylion yn fuan – mae modd eu dilyn ar drydar @YsgolGyL a hefyd ar Facebook Gellir cysylltu â'r ysgol ar ysgolgyl@gmail.com

### Eisteddfod Papurau Bro

Llongyfarchiadau i'r Angor am ennill Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach ar 10 Hydref – dyma y canlyniad
1. Yr Angor, 2. Y Gambo, 3. Clonc 4. Y Tincer 5. Llais Aeron 6. Y Ddolen
Diolch i'r enillwyr cartref o'r Tincer enillodd -
Brawddeg ar y gair MWYNHAD: 2. Mair Evans, Penrhyn-coch) (Y Tincer)
Limrig: 2 Mair Evans, Penrhyn-coch (Y Tincer), cyd 3 Medi Jones-Jackson, Bow Street (Y Tincer)



## Sorela – Chwiorydd

Mae Lisa, Gwenno a Mari Healy wedi hen arfer canu gyda'i gilydd. Ond yn ddiweddar iawn, fel y gwelwyd yn *Nhincer* Medi, fe lansiodd y tair grŵp gwerin newydd o'r enw Sorela. Bydd eu gig cyntaf yn yr ardal yn Llety Parc, Aberystwyth, Nos Wener 7fed o Dachwedd yn ystod arwerthiant i godi arian i ymgyrchoedd Plaid Cymru Ceredigion. Glan Davies fydd yr arwerthwr a bydd y noson yn cychwyn am 7:30.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad

# PENRHYN-COCH

**Hydref**
19 10.30 Ysgol Sul
2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
6.00 Cyrddau Pregethu Bethel a Seion yn Seion. Pregethir gan y Dr Hefin Jones, Caerdydd
26 2.30 Ymuno â Bethel, Aberystwyth, ar gyfer oedfa arbennig i ailgysegru'r organ bîb.

**Tachwedd**
2 10.30 Ysgol Sul
2.30 Oedfa gymun Gweinidog
9 9.30 Oedfa deuluol Gweinidog
Sylwer ar yr amser. Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10.45yb.
16 10.30 Ysgol Sul
2.30 Beti Griffiths
23 10.30 Ysgol Sul yn y festri
10.30 Oedfa bregeth yn y capel Gweinidog
30 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog


## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r efeilliaid – Adam a Lucy Thomson, Llannerch, Maesyrefail, ar eu canlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddynt yn eu gwahanol golegau. Bydd Lucy yn mynd i Brifysgol Sheffield i astudio peirianwaith sifil ac Adam yn dilyn cwrs peirianwaith meddalwedd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

hefyd i Ollie Thorogood, Glan Ceulan, sydd wedi mynd i Brifysgol Caerwysg (Exeter) i ddilyn cwrs BA mewn daearyddiaeth.
i Elinor Thorogood sydd wedi graddio o Loughborough. Mae bellach yn gweithio yn Llundain. Dyma lun ohoni yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow (ail o'r chwith)



ac i Dr Einion Dafydd, Rhandir, ar gael ei ddoethuriaeth yn ystod y mis. Dymuniadau gorau iddo hefyd ar ei swydd - Darlithydd mewn Astudiaethau Seneddol a Deddfwriaethol yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.



## Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Gwenno Morris, Preseli a ddathlodd ei phen blwydd yn ddeunawd oed ar 8 Hydref.

## Gwobrau Eisteddfodol

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd rhanu y gwobrau a enillwyd gan Gôr Penrhyn-coch a Pharti Llefaru Merched y Wawr yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2014 rhwng Eglwys St Ioan, Horeb a Neuadd y Penrhyn. Cyfranwyd £70 yr un iddynt.

## Ymddeoliad

Dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus i Alwyn Roberts, Trem y wawr, ar ei ymddeoliad o'i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

## Gŵyl Coeden Nadolig

Cynhelir Gŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch.

Mi fydd yr eglwys ar agor rhwng 2.00-8.00 yr hwyr o ddydd Sadwrn 6ed Rhagfyr hyd ddydd Sul 14eg o Ragfyr.

Estynnwn groeso cynnes i bawb, galwch heibio am baned a mins pei ac i weld yr eglwys yn ei holl ysblander Nadoligaidd.

## Noson Mecsicanaidd

Cafwyd noswaith lwyddiannus Fecsicanaidd ar nos Sadwrn 4 Hydref yn Neuadd y Penrhyn i godi arian i PATRASA; yr oedd pawb wedi gwneud ymdrech dda yn eu gwisg ffansi!

Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r grŵp lleol 'Identity Crisis' am wneud y noswaith mor hwylus i bawb.Diolch hefyd i'r canlynol am eu rhoddion tuag at y noswaith-Broc Môr, Ultracomida, Polly's, Treehouse, MG's, No 21, Columbine, Fferyllfa Lloyd's, Bach Te a Coffi, Erin, Chives, Spellbound a Niall Griffiths.



## Dathlu deugain mlwyddiant gweinidogaeth y Parchedig Peter M Thomas

Hyfrydwch ar brynhawn Sul, 26ain Medi oedd dathlu 40 mlwyddiant gweinidogaeth y Parchedig Peter Thomas, gweinidog anrhydeddus Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch. Cawsom oedfa hynod fendithiol yng nghwmni Peter, Meryl ac Owain a braf oedd cael croesawu ei frawd Huw a'i deulu atom i rannu yn y digwyddiad arbennig hwn. Bu'n gyfle i ddwyn atgofion drwy gyfrwng cyflwyniad ar y sgrîn ac i wrando ar Peter yn cyhoeddi'r Gair. Yn dilyn yr oedfa cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned a chacen a baratowyd ar gyfer yr achlysur. Diolch i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd tuag at yr achlysur cofiadwy hwn.

Cyfansoddwyd yr englyn isod gan y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan i ddathlu'r achlysur ac fe'i cyflwynwyd i Peter yn ystod yr oedfa:

O, fy Mhedr, gwn heb edrych - yn fy ôl
dy fod yno'n fynych
i mi'n gefn, a'th gwmni gwych
yn Ei enw rwy'n chwennych.

**Gwenallt Llwyd Ifan**





### Ysbyty
Dymuniadau gorau i Henry Thomas, Cwmfelin, a Mona Edwards, sydd eu dau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Dymuniadau gorau
Dymuniadau gorau i Mervyn Hughes sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cafodd syrpreis hyfryd yr wythnos ddiwethaf pan gyrhaeddodd Lynne adref – yn ddirybudd o Kuwait am wythnos. Croeso gartref Lynne!

### Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys â Brian a Mary Thomas, Caryl a Nia, ar farwolaeth llys-fam Brian, Mrs. Elaine Thomas, Hwlffordd.

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Hydref a 12 a 26 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Marwolaeth
Roedd yn drist clywed am farwolaeth Dr Huw Martin Thomas, Erddig, Ger-y-llan ar Fedi 23 yn Ysbyty Bron-glais. Bu Huw yn dioddef cystudd hir ond roedd yn berson oedd wastad a gwen ar ei wyneb. Gwnaeth gyfraniad gwerthfawr yn ei faes yn y Fridfa Blanhigion yng Ngogerddan ac yn ddiweddar bu yn rhedeg busnes llwyddiannus Promove – roedd wedi dyfeisio oofer i symud pobl anabl yn ddiogel a chyfforddus.Cynhaliwyd angladd preifat yn Amlosgfa Aberystwyth; derbyniwyd cyfraniadau er cof at Distryffi'r Cyhyrau trwy law y trefnwr angladdau, Selwyn Evans.

### Ciosg ffôn
Pan gysylltodd y Tincer efo BT i dynnu eu sylw at gyflwr y ciosg coch ar y sgwâr a gofyn pryd oeddynt yn bwriadu ei baentio cafwyd ateb y byddid yn ei roi ar restr 'i'w gwneud'. Ond roedd y gwaith paentio – a roddir i gontractwyr – wedi gorffen am leni. Fe'i gwneir rhwng Ebrill a Medi neu Hydref (yn ôl y tywydd). Pan ofynnwyd faint o arolygu y sefyllfa oedd yn digwydd cafwyd ateb – dim. Mae'n debyg eu bod yn ddibynnol ar aelodau y cyhoedd i dynnu eu sylw at y ffaith fod angen eu paentio. Cawn weld pa mor uchel ar y rhestr yw ciosg Penrhyn-coch – tybed oes rhai eraill yn yr ardal sydd yn yr un cyflwr a neb wedi tynnu sylw BT atynt.




### Merched y Wawr Penrhyn-coch
Cafwyd noson agoriadol y gangen ar y 11eg o Fedi. Croesawodd ein llywydd newydd ni, sef Wendy Reynolds, bawb i'r cyfarfod. Deliwyd gyda'r busnes arferol o drafod yr ohebiaeth ddaeth i law.

Dymunodd ben blwydd hapus i Delyth Ralphs oedd yn dathlu pen blwydd arbennig. Dymunodd gwellhad buan i Ceri Williams a Janice Morris ar ôl i'r ddwy dderbyn damweiniau. Llongyfarchiodd Sandra Beeches am ddod yn fam-gu i Florence Myfanwy, a llongyfarchodd Elsie Morgan a Mairwen Jones am dderbyn anrhydedd gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol am eu gwaith efo Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Etholwyd Delyth Jones i fynd ar Bwyllgor y Neuadd yna aed ymlaen i wylio hanes y gangen yn ystod y flwyddyn aeth heibio ar ffilm. Cafwyd hwyl wrth wylio rhai o'r lluniau a ddangoswyd.

Yna cafodd pawb gyfle i weld arddangosfa o waith brethyn cartref, Sharon Jones, un o'n haelodau, yn cynnwys cwiltiau, baneri, teganau a clustogau ac yn y blaen. Yn eu plith oedd y clustog arbennig a enillodd wobr gyntaf yn Ffair Haf Merched y Wawr ym Machynlleth. Mae gan Sharon dalent arbennig iawn. Pob llwyddiant iddi. Diweddwyd y noson gyda chaws a gwin.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at y noson. Tynwyd y raffl misol ac fe dalodd pawb eu tâl aelodaeth.

### Pen blwydd arbennig
Fe ddathlodd Dennis Thomas, Penrhyn-coch ei ben blwydd yn 60 oed ym mis Awst. Fe fu yn dathlu efo parti yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Fe ofynnodd Dennis i'w deulu a'i ffrindiau am i unrhyw rhôdd ariannol a dderbyniai i fynd at ei hoff elusen, sef Ambiwlans Awyr Cymru. Fe dderbyniodd £460 a gwelir yma yn y llun, Dennis yn trosglwyddo'r arian i Aneurin Roberts, Cydweithredwr Adran Ceredigion. A ddywedodd wrth ei longyfarch, fod hon yn weithred anhunanol (selfless). Roedd mor ddiolchgar i Dennis am y cyfraniad. Dywedodd hefyd eu bod yn hollol ddibynnol ar arian roeddent yn ei dderbyn oddi wrth y cyhoedd at yr hofrenydd i helpu pobl Cymru a bod cyfraniad fel hyn yn golygu llawer iddynt. Diolchodd Dennis hefyd i Aneurin Roberts ac i'w deulu a'i holl ffrindiau am fod mor hael. Pen blwydd arbennig i'w gofio.

### Anrhydedd
Dymuna Elsie a Mairwen ddiolch i bawb am y llongyfarchiadau a'r dymuniadau a dderbyniwyd ar ôl cael eu hanrhydeddu gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, am eu gwaith i Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch, am flynyddoedd maith. Er i ni roi'n gorau i fod yn ysgrifennydd a thrysorydd yr ydym yn dal ar y pwyllgor ac am ddal



**Llongyfarchiadau i Jacqueline Minchin, River Mead, fu yn cystadlu yng Ngêmau Olympaidd Arbennig yr Haf yn Antwerp, Gwlad Belg lle cymerodd dros 2000 o athletwyr o 58 gwlad ran mewn 10 camp wahanol. O'r 51 athletwr yn nhîm GB roedd yna 11 nofiwr, yn cynnwys Jacqueline a hi oedd yr unig un o Gymru. Cafodd Jackie ddau ruban am ddod yn seithfed am y rasys 25m a 50m nofio yn y dull rhydd ac efydd fel rhan o'r tim yn y ras gyfnewid**

**Hoffai Jackie ddiolch i'w hyfforddwraig yn Aberystwyth – Lynwen Jenkins - oedd wedi ei pharatoi hi cystal a'r ddwy hyfforddwraig Olympaidd arbennig – Janet Warrington ac Andrea Mansen.**

# PENRHYN-COCH

i wneud ein gorau dros yr Eisteddfod. Carwn ddiolch i bawb a fu mor gefnogol i ni dros y blynyddoedd a dymunwn yn dda i'r swyddogion newydd a phob llwyddiant i'r dyfodol.

### Cwrdd diolchgarwch

Nos Fercher Hydref 1af cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch Horeb pan fu Sian Howys, Aberystwyth, yn sôn, gyda chymorth lluniau, am ei hymweliad â Nicaragua. Cafwyd eitem gerddorol gan barti merched y Capel wedi eu hyfforddi gan Mair Evans a gweddïwyd gan Gwenno ac Anwen Morris. Diolch i'r marched fu yn addurno y capel. Cyflwynwyd y casgliad i Ymgyrch Cymru Nicaragua.

### Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm cyntaf**
13/09/14
Aberriw 0-1 Penrhyn-coch (Cwpan Cymru)
20/09/14
Penrhyn-coch 3-1 Aberaeron (Tlws CBD Cymru)
27/09/14
Penrhyn-coch 2-2 Llanfair (Cynghrair)
04/10/14
Penrhyn-coch 2-1 Fflint (Cwpan Cymru)

**Eilyddion**
20/09/14
Llanilar 3-0 Eilyddion Penrhyn-coch (Cynghrair)
04/10/14
Dolgellau 2-0 Eilyddion Penrhyn-coch (Cynghrair)

**3ydd tim**
13/09/14
Eilyddion Machynlleth 1-3 Trydydd tîm Penrhyn-coch (Cynghrair)

**Merched**
28/09/14
Penrhyn-coch 5-1 Llanbedr Pont Steffan

# BOW STREET

**Oedfaon**
**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**
**Hydref**
19 Bugail (cymun- bore)
26 John Gwilym Jones
**Tachwedd**
2 W.J. Edwards Judith Morris
9 Goronwy Prys Owen
16 Bugail (cymun – bore; Bethlehem, Llandre – hwyr)
23 Terry Edwards
30 Christopher Prew

**Noddfa**
**Hydref**
19 2.00 Oedfa Undebol (Diolchgarwch y Plant) Y Parchg Andrew Lenny
26 10.00 Trefn lleol
**Tachwedd**
2 10.00 Uno yn y Garn
9 2.00 Gweinidog (Cymundeb)
16 10.00
23 10.00 Gweinidog
30 3.30 Uno yng Nghartref Tregerddan

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar yr 8fed o Fedi croesawyd pawb yn gynnes i gyfarfod cyntaf y tymor gan ein llywydd, Mrs Mary Thomas. Diolchodd i'r ysgrifennydd am ei gwaith yn paratoi rhaglen y tymor ac i'r trysorydd am gyflwyno'r fantolen flynyddol. Yn dilyn trafod ychydig o faterion rhanbarthol a llongyfarch rhai o'r aelodau ar eu llwyddiant mewn sioeau lleol yn ystod yr haf, aeth Mary ymlaen i gyflwyno gwestai y noson, sef Mrs Diane Smith o Ben-cae, Llanarth. Soniodd Diane yn fras am ei chefndir, a'i phenderfyniad i newid cyfeiriad yn llwyr yn ei phumdegau a mynd yn nani i fab tywysog a'i deulu yn Saudi Arabia.Trwy gyfrwng sgwrs a lluniau llwyddodd i gyflwyno darlun arbennig o'r bywyd bob dydd fel ag yr oedd o fewn ac o gwmpas y palas yn gyffredinol gan gyfuno ffeithiau a phrofiadau



Elsie Morgan Penrhyn-coch, yn agor Te Tregerddan ar 13 Medi. Cafwyd prynhawn arbennig.

personol yn gelfydd iawn. Roedd yn amlwg wedi mwynhau y profiad yn fawr ac roedd yn braf i weld ac i gael cefndir nifer o greiriau perthnasol o'r cyfnod a oedd yn ei meddiant. Diolchwyd iddi am noson ddifyr iawn gan Mary a bu Diane yn barod i ateb ambell i gwestiwn gan nifer o'r aelodau. Daeth y noson i ben gyda phaned a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Mrs Gaenor Jones.

### Gwellhad buan

Pob dymuniad da am wellhad buan i'r Parchg W. J. Edwards ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar.

### Diolch

Dymuna Craig a Cerys Davies, Pen-y-parc, Llan-non, ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

### Ar wella

Mae'n dda cael ar ddeall bod Mrs Elen Evans, Erw Las, yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Brysiwch wella!

### Ordeinio Rhun

Ar Fehefin 28 ordeiniwyd Rhun Gwynedd ap Robert yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Erbyn hyn mae ef, Magda ei wraig a'u plant Ioan, Mari ac Elis yn byw yn Aberafan lle bydd yn gurad am dair blynedd. Dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu yn eu hardal newydd.

### I'r coleg

Llongyfarchiadau i Elin Haf, Bryn Castell, ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau ar ei chwrs Llenyddiaeth Saesneg yn Goldsmiths, Prifysgol Llundain.

### Prif Fachgen Penweddig

Llongyfarchiadau i Dafydd Rees, Brysgaga, ar gael ei ddewis yn Brif Fachgen Ysgol Penweddig eleni. Dymuniadau gorau iddo ar ei waith.

### Cangen Plaid Cymru Rhydypennau

Mae cangen Rhydypennau yn trefnu noson gyffrous ar 30 Hydref yn Neuadd Rhydypennau (7.30 pm). Teitl y noson fydd 'Beth nesaf? Effaith refferendwm yr Alban ar Gymru.' Ymhlith y siaradwyr fydd Mike Parker, Elin Jones, Steffan Lewis a Cynog Dafis. Croeso cynnes iawn i bawb yn ddiwahân – aelodau, cefnogwyr a thrigolion lleol. Mynediad am ddim, ond gwneir casgliad yn ystod y noson at ymgyrch Mike Parker. Nodwch y dyddiad!

### Clwb Gwawr y Pennau

Daeth criw da at ei gilydd i'r cyfarfod cyntaf ym mis Medi ar gyfer noson 'swishing', sef cyfnewid dillad nad ydych chi'n gwisgo rhagor. Roedd yn gyfle gwych i waredu dillad sydd wedi bod yng nghefn y cwpwrdd dillad ers hydoedd a chael cyfle i gael rhywbeth newydd yn eu lle. Cafwyd hwyl yn edrych ar y dillad ac aeth pawb adref yn hapus gyda'i dillad 'newydd'. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb Gwawr, cysylltwch gyda Rhian Nelmes (01970) 832364. Rhian.nelmes@btinternet.com



Milwr ar gefn ceffyl o flaen y Black yn Bow St

## Y RHYFEL BYD CYNTAF YN ARDAL GOGLEDD CEREDIGION

### PROSIECT COFIO a MYFYRIO

Arddangosfa o ddeunyddiau a gasglwyd yn lleol

Agoriad swyddogol
Neuadd Rhydypennau
Nos Lun 3 Tachwedd am 7 o'r gloch
gan Gwynfor Hughes, Caerdydd

**4 – 5 Tachwedd**
Neuadd Rhydypennau
**10 – 11 Tachwedd**
Neuadd Goffa Tal-y-bont
**13 – 14 Tachwedd**
Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor
**17 – 19 Tachwedd**
Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch
**21 – 22 Tachwedd**
Neuadd y Paith, Capel Seion
Bydd yr arddangosfa ar agor 2 – 8 p.m.
Ac eithrio 14 a 22 Tachwedd,
pan fydd yn cau am 5 p.m.

Cyflwyniad dramatig dan ofal Euros Lewis
gydag actorion lleol

**Act 1: nos Iau 6 Tachwedd**
**Capel y Garn, Bow Street**
**Act 2: nos Fercher 12 Tachwedd**
**Capel Bethel, Tal-y-bont**

**Act 1: nos Wener 14 Tachwedd**
**Capel Pen-llwyn, Capel Bangor**
**Act 2: nos Iau 20 Tachwedd**
**Capel Horeb Penrhyn-coch**

Bydd y perfformiadau'n dechrau
am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb

Manylion pellach gan John Leeding
**01970 832672**

Y Milwyr yn cyrraedd
Bow St yn 1910.




# Colofn Mrs Jones

Fe ryfeddodd fy nith a minnau ein gilydd y dydd o'r blaen a dangos yn eglur fod cenhedlaeth rhyngom.Yr oedd hi wedi galw i weld Hector a Cai ac yn ystod ein sgwrs, dyma hi yn dweud ei bod wedi gwneud cais am fflat yn Abergele. 'Pam', meddwn innau, 'wyt ti wedi cael ffrae efo dad a mam?' Edrychodd arnaf yn hurt ac euthum innau ymlaen, 'wel, pan oeddwn i dy oed di, doedd gan neb ohonom ei fflat ei hun os nad oeddyn nhw yn gweithio oddi cartref neu yn methu byw adref. Roedd ymateb Heledd yn gryno, 'that was then and this is now a fi ydi'r unig un o fy mets sydd yn dal i fyw adref fel babi.' Erbyn hyn, mae hi yn ei fflat ac yn hapus iawn yn ôl pob golwg.

A mi dybiaf, rywsut, fod y ddwy ohonom yn iawn, yn sicr, pan oeddwn i ei hoed hi, dim ond pan oeddwn i yn gweithio oddi cartref y bu gennyf loches i mi fy hun, yn wir, hyd yn oed pan oeddwn yn gweithio yn y Llyfrgell, nid oedd neb yn ei gweld hi'n od mod i yn byw adref. Ac y mae yr un mor amlwg fod y to sydd yn codi yn gadael cartref am fflatiau a thai ymhell cyn priodi. Per se, dydi hyn ddim yn ddrwg i gyd, mae'n creu marchnad am dai a chyfarpar tai ac felly'n creu swyddi a mae'n creu cynnydd yn y nifer sydd yn talu treth cyngor sydd yn llesol i bawb ohonom. Ond pan ystyriwch chi fod nifer gynyddol o dai yn medru arwain at nifer gynyddol o fewn fudwyr, a cholli tir amaethyddol, ydw i ddim yn hollol siwr o fantesion bod ag angen adeiladu ar gyfer ein plant dibriod ni ein hunain.

Ac wn i ddim sut y bydd Heledd ychwaith, ar ôl gweld mai ei chyfrifoldeb hi yw pob bil ddaw i'r tŷ!!

Mae hi yn gyfnod diolchgarwch ar hyn o bryd, wrth gwrs, cyfnod i ddiolch mai o law Duw y daw pob peth ac mai o'i lw ei hun y rhoddwn iddo. Mae bod yn llawen a diolchgar yn rhan o ddyletswydd pob Cristion at Dduw ond nid yw gosod un cyfnod o'r neilltu i ddiolch yn llesol onid yw yn benllanw blwyddyn o ddiolch ac o addoli ac o rannu a phawb y gormod y mae Duw wedi ei ddarparu a ni i gyd.

# llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



**Machlud haul prydferch ac anarferol o Glarach**

# Tair cenhedlaeth y tu ôl i fenter newydd yn Bow Street

Mae busnes lleol sydd wedi ei hen sefydlu yn cael gweddnewidiad.

**Harddwch Siriol Beauty** yw menter newydd Lisa Wyn Morgan, ŵyres Mair Davies o Bow Street a merch Wyn a Heulwen Morgan o Dolau. Bu Heulwen yn trin gwallt yn Salon Leri ar y safle ers 30 o flynyddoedd, mewn estyniad o gartref ei mam sef Brynsiriol ger swyddfa'r post yn Bow Street. Mae Mair ei mam wedi cynorthwyo yn y fusnes dros y blynyddoedd, yn dilyn gyrfa lwyddiannus ei hun yn trin gwallt a chynnig thriniaethau harddwch. Mi fydd Heulwen yn parhau i drin gwallt cwsmeriaid hen a newydd Salon Leri ar y llawr gwaelod ond mae Lisa yn sefydlu busnes ei hun o'r newydd ar yr ail lawr.

Yn gyn ddisgybl o Ysgol Rhydypennau a Phenweddig mae Lisa wedi cwblhau ei hastudiaethau ar gwrs harddwch yng Ngholeg Ceredigion. "Mae agor salon harddwch fy hun yn gwireddu breuddwyd" meddai, "rydw i mor gyffrous am gynnig ystod o driniaethau harddwch proffesiynol i gwsmeriaid o bob oedran a gallu gwneud hynny yn fy milltir sgwâr."

Mi fydd Harddwch Siriol Beauty yn agor ei drysau fis Tachwedd. Mi fydd Lisa yn croesawu ymwelwyr cyntaf gyda glasiad o siampen a chynigion agoriadol arbennig .

Dymuniadau gorau i'r fenter newydd Lisa.







Eirian Reynolds,
Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Cyngor ar nos Iau, 25 Medi o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James. Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlodd â'r Cyng. Paul Hinge ar farwolaeth ei fam yng nghyfraith, Mrs Dorothy Horwood yn ddiweddar. Llongyfarchwyd y Cyng. Hinge ar yr anrhydedd a dderbyniodd am ei gyfraniad gyda'r Fusiliers Cymreig.

Dywedodd y Clerc ei fod wedi archebu cyfarpar i gae chwarae Bryncastell gan gwmni newydd, sef HAGS, a byddant yn cychwyn ar y gwaith ar 10 Hydref. Nid yw'r gôl pêl-droed wedi ei osod – fel y nodwyd eisoes, oherwydd problemau iechyd a diogelwch. Gobeithir prynu un newydd yn fuan. Mae rhai o wrychoedd y llwybr yn Nhregerddan yn parhau i fod heb eu torri. Apelir ar i'r perchnogion fynd ati ar fyrder i'w torri er hwylustod i bawb.

Nid yw'r sbwriel ar dro Bryncastell wedi ei glirio eto, ond gobeithir gwneud hynny yn fuan. Mae rhai o drigolion Maesafallen yn parhau if od heb gael biliau gan y Cyngor Sir am yr uwchraddio, hyn yn pery gofid i'r rhai sydd am werth eu tai.

Dywedodd y Cyng. Hinge fod cyfarfod wedi bod ar ystad Cae'r Odyn rhwng rhai o'r trigolion a Chwmni Griffiths sy'n datblygu gweddill yr ystad. Daethpwyd i ddealltwriaeth parthed y ffordd fydd yn arwain tua'r datblygiad newydd o'r ystad. Ni fydd loriau trwm yn defnyddio yr agoriad newydd yn ystod y gwaith. Dywedodd hefyd fod y broblem parcio yn Nhregerddan yn parhau, yn enwedig, gan fod rhai trigolion yn berchen cymaint a dau neu dri cerbyd.

Mae banc poteli wedi ei leoli yn Afallen Deg, a bydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am ei wacau. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu parthed gorsaf rheilffordd yn Bow Street ar 17 Hydref, a gofynnir i bawb sydd â diddordeb fod yn bresennol. Mae'n debyg fod Prifysgol Aberystwyth yn gwasgu am benderfyniad gan fod ganddynt gynlluniau eu hunain gyda'r tir o gwmpas.

Penderfynwyd cyfrannu £300 tuag at gost yr arddangosfa a drama a drefnir gan Gofalaeth Eglwysi Gogledd Ceredigion i gofio ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Hydref.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL





Annwyl Ddarllenwyr,




Mae un o brif fudiadau i ferched yng Nghymru, Merched y Wawr, wedi rhoi cefnogaeth i godi arian mewn partneriaeth blwyddyn hefo British Heart Foundation (BHF) Cymru trwy enwi'r mudiad yn Elusen y Flwyddyn ar gyfer 2014.

Croesawodd BHF Cymru y bartneriaeth yma hefo Merched y Wawr yn Llanbed, partneriaeth a fydd yn cychwyn calendr blwyddyn gron o weithgareddau i godi arian ac ymwybyddiaeth am glefyd y galon i elusen calon y genedl.

Gyda oddeutu 180,000 o ferched yn dygymod yn ddyddiol hefo cyflwr cardiofasgiwlar yng Nghymru, mae tri allan o pob 10 ohonynt yn colli eu bywydau i'r clefyd – sy'n ei neud yn glefyd sy'n lladd mwy na chancr.

Dywedodd Jayne Lewis, Rheolwr Codi Arian ar gyfer BHF Cymru: "Rydym wrth ein boddau o fod wedi ein dewis fel elusen y flwyddyn gan Merched y Wawr. Gall clefyd y galon effeithio ar unrhyw un, ond fel cymdeithas rydym yn dal ati i gredu fod problemau y galon yn broblem gan amlaf i ddynion – gyda hysbysebion teledu a storïau dramâu sebon yn portreadu dynion yn dioddef o glefyd y galon. Mae merched llawer llai tebygol o adnabod symptomau trawiad y galon, ac yn llai tebygol o alw 999 pan fyddent yn cael trawiad. Rydym felly yn croesawu'r bartneriaeth yma ac i gael cefnogaeth gan un o brif fudiadau merched yng Nghymru. Bydd Merched y Wawr nid yn unig yn help i ni godi arian i gefnodi ein gwaith achub-bywyd a'n hymchwil a allai fod o fudd i bob un sy'n dioddef, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth am glefyd y galon a sut mae'n effeithio merched.

Bydd yr arian a godir gan Merched y Wawr yn mynd yn uniongyrchol at waith achud bywyd BHF Cymru i gyllido eu hymchwil, a gwasanaethau fel cyllido gweithwyr iechyd proffesiynol, gofalu am gleifion y galon a chefnogi teuluoedd a gofalwyr, a sicrhau fod mwy o bobl yn goroesi ataliad y galon (cardiac arrest) yn eu cartrefi ac yn y gymuned.

Hwyl am y tro, Jayne

Jayne Lewis, Rheolwr Codi Arian Gwirfoddol
Blwch Post 26, Cydweli, Sir Gaerfyrddin SA17 4WW

### Dychweliad y Palmerston

Yn ystod y mis dychwelodd yr injan Palmerston i Reilffordd Cwmrheidol o Gwmni Rheilffordd Ffestiniog i gofio dechrau y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhwng 1912-1920 llogwyd yr injan o'r Cwmni yn y gogledd i gyfarfod y drafnidiaeth oedd ar lein Cwmrheidol. RHan o'r prysurdeb oedd y gwesylloedd milwrol ym Mhontarfynach a Gelli Angharad. Gan ei bod tua canmlwyddiant y digwyddiad, ei body n 25ml ers preifateiddio y rheilffordd a bod Palmerson yn dathlu ei phen blwydd yn 150 fe'i cafwyd nol ac fe'i defnyddiwyd
Yn yr ail lun gwelir Llŷr ap Iolo, Llandre, Rheolwr Cyffredinol a Phrif Beirianydd y Rheiffordd yn cael ei gyfweld ar gyfer y cyfryngau gan Craig Duggan.
Bydd trenau 'Lliwiau'r Hydref' yn rhedeg o Aberystwyth am 11.30 ar y Suliau canlynol yn Nhachwedd – 9, 16,23 a 30. Caniatier ymweliad dwyawr â Phontarfynach o oedi cyn dychwelyd. Gellir archebu tocynnau arlein neu drwy ffonio 01970 625819.
Ceir mwy o fanlyion yma http://www.rheidolrailway.co.uk/autumntour.htm

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Myra Matthews, y Gamlyn, ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar.

### Priodas Aur

Cyfarchion arbennig i Vivian a Meriel Morgan, Is y Coed, ar ddathlu eu priodas aur ganol y mis.

### Capel Llwyn-y-groes

Cynhaliwyd y Cwrdd Diolchgarwch ar nos Iau olaf mis Medi.o dan arweiniad Miss Beti Griffiths, Llanilar. 'Roedd yn hyfryd gweld y Capel bach yn gyffyrddus lawn gyda llawer o ffrindiau o Gapeli cyfagos ac Eglwys Capel Bangor wedi ymuno â ni. 'Roedd y Capel eleni eto wedi ei lanhau a'i addurno yn arbennig iawn ar gyfer yr achlysur ac mae ein diolch yn fawr iawn i Gwen Morgan , Ann Ellis a Dot Kirton am roi o'u hamser i wneud y gwaith. Diolch i Delyth Davies, Maencrannog, am wasanaethu wrth yr organ, i bawb am eu presenoldeb, ac i Beti Griffiths am ei neges syml a phwrpasol fel arfer.

# Dathlu'r Dwbwl yn achlysur cofiadwy

**Carreg filltir arwyddocal yn hanes diwylliant y fro**

Roedd nos Wener 3 Hydref yn achlysur y bydd llawer iawn ohonom yn ei gofio am flynyddoedd i ddod pan aeth yr ardal ynghŷd i ddathlu llwyddiant un o blant y fro wedi iddi hi greu hanes yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr ym mis Awst eleni. Llwyddodd Lleucu Roberts, gynt o Ddolgwiail, i ennill dwy o'r prif wobrau yn adran lenyddol y Brifwyl – Y Fedal Ryddiaith a Thlws Coffa Daniel Owen . Camp ryfeddol nad oes neb arall wedi ei chyflawni mewn un Eisteddfod. Cyhoeddwyd y ddwy gyfrol gan Y Lolfa, Tal-y-bont *Rhwng Edafedd* a *Saith Oes Adda* a'r Lolfa hefyd oedd noddwr y dathliad yn Llandre.

Mae Lleucu bellach wedi ymgartrefu yn Rhostryfan, ger Caernarfon ond mae ganddi wreiddiau dwfn yn naear yr ardal hon a llawer o'i theulu'n weithgar ym mywyd y gymuned.

*Dathlu'r Dwbwl* oedd thema'r noson a threfnwyd dau ddigwyddiad. Erbyn 6 o'r gloch roedd Ysgoldy Bethlehem dan ei sang ar gyfer Rhaglen i longyfarch Lleucu. Cafodd ei chyfarch gan blant a ieuenctid y pentref a gan feirdd yr ardal. Cyflwynwyd darlleniadau o'i gwaith gan Meinir Edwards a Carwen Hughes a chafwyd sgwrs rhwng Lleucu a Nia Peris a fu'n golygu'r ddwy gyfrol yn y Lolfa. Arweiniwyd y noson gan Penri James. Cyflwynwyd stôl bren i Lleucu gan Wynne Melville Jones fel cofnod o'r noson. Trefnwyd y raffl gan Nans Morgan, y lluniaeth ysgafn gan Llinos a'r stondin lyfrau gan Siop Inc.

Daeth 11 o feirdd y fro a chynulleidfa hwyliog ynghŷd yn Ngwesty Llety Ceiro am 8 o'r gloch i noson o STOMP dan arweiniad Arwel Pod Roberts, gŵr Lleucu. Cafodd lwyfan i ddangos ei hiwmor a'i ddawn eithriadol wrth iddo arwain gornest feistrolgar o'r llon a'r lleddf a'r doniol iawn. Cyflwynwyd stôl y penstompiwr i'r Prifardd Dafydd John Pritchard, Aberystwyth. Roedd hi'noson ddifyr a chymdeithasol iawn a llawer eisoes yn holi am un arall.

Trefnwyd yr holl achlysur gan Fanc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn ac mae'r diolch yn fawr i bawb a wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd i sicrhau llwyddiant diamheuol y garreg filltir hon yn hanes diwylliant ein bro.

## I Lleucu Roberts

Wallog rhwng bodiau dy draed
a Chastell Gwallter ar dy war...

mae dy gerdd yn fy nilyn i gyfeiliant y nant
wrth grwydro drwy'r coed,
llafariaid fel heulwen yn dawnsio rhwng
cysteiniaid y dail.

I lawr at y fynwent a'r fedwen
lle mae'r eiddew o enwau sy'n dringo'r
blynyddoedd yn dyst,
dymor wrth dymor,
i'r dwylo a'u naddodd yn y pren.

Mae d'enw dithau, Lleucu, wedi ei sgythru
yn rhisgl y fro hon,
yn gerfwaith yn rhuddin y gymuned
a d'eiriau, lle bynnag yr wyt,
yn dal i ganu,
dymor wrth dymor,
i gyfeiliant y nant yng ngenau'r glyn.

Geraint Williams

## I Lleucu

'Leni, i fro Lôn Glanfrêd
a Dole mae ein dyled.
Hud y sir fu'n gosod sail
ac awen yn Nôlgwiail,
a hen gaer roes y geiriau'n
un fflyd; daeth o'r rhyd a'r waun
ryw awen; yn y Rhiwel
syniad, dyhead fu'n hel.

Un Awst, fe roddwyd i ni
haf hud; caed tir i'w fedi
ac erwau dan gnwd geiriol
o ddawn i'w gywain o'r ddôl
a'i hel gan lenor â'i iaith
yn fwdwl o dafodiaith.

Daw'r eirfa o dir Arfon
ond ein bro all hawlio hon.

Anwen Pierce

## I Lleucu
**(ar ôl darllen *Saith Oes Efa*)**

Artist y wên a'r artaith – a lwyddodd
I gloddio dan weniaith
Ein geiriau saff i greu saith
O fydoedd o'n tafodiaith.

Huw Meirion



Lluniau: Y Lolfa

Bethlehem Llandre dan ei sang i ddathlu llwyddiant hanesyddol Lleucu Roberts






## I Lleucu

Mi ganaf gân i Lleucu,
On'd gweddus iawn yw hynny
A hithau'n ddiau wedi dod
Â bri a chlod i'w theulu?

A bri a chlod dihafal
I'w phentref a'i hen ardal
A ddygodd hon wrth iddi hel
Y Daniel a'r Aur Fedal.

Mae rhai – rôl strach a thrwbwl
Yn colli wedi'r cwbwl,
Ond dyma Lleucu – mawr ei chlod –
Yn dod – a chipio'r dwbwl!

Dwy gyfrol ar yr untro!
O'r sgwennu a fu yno!
Mae'n rhaid na chysgodd nemor winc
Pan oedd yr inc yn llifo.

Dwy gyfrol i'n diddori,
Dwy gyfrol i'n bodloni.
Dwy gyfrol wych, dwy gyfrol gron
A luniodd hon eleni.

Cans talent hon yw sgwennu,
Ac er bod ni'n rhyfeddu,
I'w phlant i gyd, a'i phriod, Pod,
'Doedd dim yn od yn hynny.

'Rôl gorffen y coginio,
Y brecwast, te a'r smwddio,
Neilltuo wnaiff i'w chell am dro
I sgriblo, sgriblo, sgriblo.

Yn fam ymhlith y mame,
Yn llywio llong y cartre,
Ac ati hi, heb fawr o frys,
Daw Pod â'i grys a'i sane.

Llawenydd gafwyd weithian,
A hyn mewn dwyfro gyfan,
A'r Ddraig a welwyd yn y nen
Yn chwifio uwchben Tryfan.

Ein llongyfarchion cynnes
I Lleucu, fwyn awdures,
Rhosgadfan a Rhostryfan mwy
Fydd ardal dwy frenhines.

**Tegwyn Jones**



Wynne Melville Jones yn cyflwyno stôl i Lleucu

## Cyfarch Lleucu ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014

Nos o hanes yw heno
I roi camp ar fur y co',
Awr o glod yng Ngenau'r Glyn
Yw haeddiant un o'r gwreiddyn,
Rhown ein mawl i'r un o'n mysg,
Yn rhwydd, mae'n lenor hyddysg,
Gŵyl arall i'r disgleiriaf,
Yng Ngenau'r Glyn yn nherfyn haf.

Tyfu wnaeth Lleucu ein llên
O fywiog ffrydlif awen,
Fel yna'r twf eleni
Ydyw tant ei haeddiant hi.

Lleucu llên, nid Lleucu Llwyd
Y Lleucu hon lle canwyd
Tannau i'w braint yn ei bro
Nodau unfryd ei henfro.
Un o hil Pencerdd yw hi
Diwel o awen Dewi.

Tryfer yw o Rostryfan
Yn dal cerdd a nodau cân
Ein dal ni mewn storïau
Sydd ar dir y gwir a'r gau.

Eitha peth yw geneth gŵl
A'i dwybig am y dwbwl,
Cytunai y Kate enwog
Na wnâi well yn Nhir na nOg!
Yn nhalwrn gwych y teulu
Hi yw'r tal ar lawr y tŷ
Ond hanfod Pod a'r pedwar
Yw osgoi hon yn y sgwâr!

Rhown donc hir ein dwy encôr
Eleni i wir lenor.
Yn rhwydd boed iddi barhau'i
Fedi eilwaith fedalau.

**Vernon Jones**




Prifardd y Stomp Dafydd John Pritchard yn derbyn stôl bren arbennig ac anrhydedd y Stomp gan Arwel Pod Roberts

## Lleucu

Daniel Owen eleni – a'n llonnodd
Llawenydd ddaeth inni.
A'r Fedal ddihafal, hi'n syfrdanodd,
Hon enillodd y ddwy yn Llanelli.

Andros o falch yw Llandre o'i llenor
Fu'n llenwi'r papure.
Yng nghrud ei dawn, llawn yw'r lle'n canmol llwydd,
Wedi diwydrwydd, da yw dod adre.

**Huw Ceiriog**

**Newid rôl, newid teitl**

Lleucu y wyres, yn ferch i riant
yn ddisgybl, yn fam i dy blant
yn chwaer fawr i Esyllt a Rhod,
MRS Roberts, yn wraig i Pod.

Ond yn Awst daeth tro ar fyd
ac amser rhyw deitl i newid.
Nid hon oedd eisteddfod Llanelli
Cans hon oedd eisteddfod Lleucu.

**Philip Thomas**

# LLANDRE

### Penodiad

Llongyfarchiadau calonnog i Dr Huw Meirion Edwards, Llandre, sydd wedi'i benodi'n bennaeth adran olygyddol y Cyngor Llyfrau. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd yn y flwyddyn newydd.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Marjorie Hughes, Taigwynion, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen.

### Treftadaeth Llandre

Hydref 30 : Masnach gynnar ar Afon Dyfi - Barbara Walker.
Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem gan gychwyn am 7.30 yh

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

• C21 (7.30, nosweithiau Mercher o 1 Hydref i 5 Tachwedd): cyfarfodydd y grŵp Cristnogaeth 21 dan arweiniad Parch. Enid Morgan.
• Bwrw Bol (7.00, nos Fercher, 12 Tachwedd): noson i fwrw bol ar sut y dylid nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.
• Gŵyl Lyfrau Morlan (14-15 Tachwedd): Coblyn a Pili Pala o Bentre Bach, Eurig Salisbury, Manon Steffan Ros, Gwyn Jenkins, Lleucu Roberts a T. James Jones.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

### BARGEN

Mae'r ychydig gopïau olaf o lyfr gwych Randall Enoch *Llanfihangel Genau'r Glyn : the history of a Community* ar gael am £6.65 - gostyngiad o 30%! Os hoffech chi ddysgu mwy am bob math o agweddau ar hanes Llandre, dyma'r llyfr ichi. Neu beth am ei roi yn anrheg Nadolig? Cysylltwch â Roger Haggar 01970 820314.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Lun Medi 15fed yng ngofal un o'n haelodau, Llinos Dafis. Daeth Llinos a'r llun a gyflwynwyd iddi am ennill Gwobr Patagonia am yr erthygl orau yng nghylchgrawn *y Wawr* rhifyn Hydref 2013. Soniodd hefyd am ei thaith i Batagonia. Bydd pob cyfarfod yn cael ei drefnu gan ddwy aelod gan newid yn fisol. Bydd y cyfarfod nesa ar Hydref 20fed yn cael ei drefnu gan Gwenda James, Tre-medd.

### BANC BRO - Clwb 50

Enillwyr mis Medi

1. £30. Cynog Dafis, Cedrwydd
2. £20. Menna Edwards, Pen-y-groes
3. £10. Elina Davies, Bronallt

### Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn - Cyngerdd

Sadwrn 18 Hydref : Organydd Alistair Auld ac eraill. 7.30 yh. Mynediad £5.00 trwy raglen neu wrth y drws.

### Menter newydd

Dymuniadau gorau i Craig a Rhiannon Edwards, Lôn Glanfred, perchnogion newydd siop bysgod Jonah yn Stryd Cambrian, Aberystwyth. Pob lwc gyda'r fenter.
Maent yn trydar ar @JonahsAber

### Cyflwyno Medal Ymerodraeth Brydeinig

Anrhydeddwyd Dr.Roger Haggar MYP o Landre, gan y Frenhines ar gyfer gwasanaethau gwirfoddol i dreftadaeth yn Llandre. Cyflwynwyd Dr. Haggar gyda Medal Ymerodraeth Prydain gan yr Arglwydd Raglaw o Ddyfed,Yr Anrhydeddus Robin Lewis OBE, mewn Seremoni Cyflwyniad yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth dydd Gwener, 3 Hydref.

Roedd Dr.Haggar yn un o sylfaenwyr 'Treftadaeth Llandre' ac am dros 10 mlynedd mae wedi gweithio'n galed iawn i ddefnyddio ei weledigaeth ar gyfer cadwraeth fel cyfrwng i gynnwys pob elfen o gymuned gyfagos. Mae ei brosiectau niferus, o brosiectau adfer i lwybrau treftadaeth, wedi dod â theimlad o falchder yn ôl i'r gymuned a dychwelodd ymdeimlad o werth i'r bobl hynny sy'n gwella o ddibyniaeth sylweddau.

Dr. Haggar yw'r prif yrrwr y tu ôl i lwybr Treftadaeth Eglwysi Ceredigion sy'n cyflwyno ymwelwyr i Geredigion gyda golygfa unigryw o gefn gwlad.

Yn y llun gwelir Arglwydd Raglaw Dyfed, Yr Anrhydeddus Robin Lewis OBE yn cyflwyno Medal Ymerodraeth Prydain i Dr. Haggar.



**Dymuniadau gorau i Ben Hunt, mab Llinos a Robert, gynt o Llandre ac Anna Keyworth, merch Sue a Mark o Lan-non a briodwyd ar 26 Gorffennaf yn Eglwys Llansanffraid, Llan-non. Treuliwyd y mis mêl yng Nghroatia ac maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.**



## O'r Cynulliad – Elin Jones



Bu'n fis o ddigwyddiadau mawr yn yng Ngheredigion a thu hwnt. Mae adolygiad Marcus Longley o'r gwasanaeth iechyd yn y canolbarth yn tynnu at ei therfyn. Edrychaf ymlaen at weld ei gasgliadau, ac at barhau i wneud yr achos dros driniaeth arbennig i ardaloedd gwledig. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus bywiog yn Aberystwyth ar ddyfodol Bron-glais, ac mae trafodaethau'n parhau am Ysbyty Aberteifi, meddygfa Aberaeron, Cylch Caron a gwasanaethau cymunedol ym mhob rhan o'r sir.

Cawsom hefyd refferendwm yr Alban. Er mai pleidlais 'Na' fuodd, mae'r broses wedi esgor ar drafodaethau dwys ar sut yr ydym yn cael ein llywodraethu. Mae gymaint o bobl eisiau newid fel na all cyfundrefn San Steffan barhau'n ddigyfnewid. Mae'n rhaid i Gymru gael llais cyflawn yn y trafodaethau hyn.

Un peth oedd yn amlwg wrth i fi ymweld â'r Alban oedd y cyswllt anferth rhwng pobl ifanc a'r broses wleidyddol. Am y tro gyntaf, derbyniodd pobl o 16 ac 17 yr hawl i bleidleisio, ac roedd yn amlwg bod yna nifer yn cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd.

Weithiau nid ydym yn llawn-werthfawrogi ein pobl ifanc. Mae hi wastad yn dda gweld plant o Geredigion yn dysgu am ddemocratiaeth a digwyddiadau'r byd, boed hynny'n mynd am daith i'r Cynulliad gyda'r Urdd, neu ymweld yn ystod y gynhadledd NATO fel y gwnaeth rhai o Aberystwyth yn ddiweddar. Wrth ymweld ag Ysgol Bro Pedr yn gynharach yn yr haf, yr hyn greodd argraff arna i oedd pa mor wybodus oedd y bobl ifanc yno.


Mae bygythiadau diweddar i gyllid i fyfyrwyr bregus, fel y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru a'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, yn bygwth atal rhai rhag cael mynediad at addysg uwch, a siomedig iawn oedd toriadau llym Llywodraeth Cymru i'r gyllideb prentisiaethau.

Mae potensial anferthol gan ein pobl ifanc yng Ngheredigion, a rhaid gwneud popeth a allwn er mwyn galluogi iddynt i ffynnu.

# Taith gerdded y mis

## Maesnewydd i Bwlch y Ddwyallt

**Man dechrau**: Cilfan ar bwys Maesnewydd.
**Map**: OS213. GR 645877.
**Pellter**: 3.75 milltir, cymedrol a hawdd.




O'r gilfan trowch i'r dde ar ôl adeiladau Maesnewydd. I'r dde ac yn syth i'r chwith ar y groesffordd nesaf ac i fyny'r feidr a'i dilyn nes cyrraedd Bwlch y Ddwyallt. Noder nad yw'r darn dotiau yn lwybr cyhoeddus. Heibio'r adeiladau a throi i'r chwith lawr y cae tuag at Argoed. Cyn yr adeiladau trowch i'r dde a dilyn y cloddiau nes cyrraedd feidr. I'r dde yma ac wedyn i'r chwith pan ddewch at y ffordd sy'n mynd i Penbompren Uchaf. O Dal-y-bont 'nôl i'r man dechrau ar hyd y llwybr beicio.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Pen-llwyn**
**Hydref**
19 2.00 Raymond Davies
26 5.00 Bugail
**Tachwedd**
2 2.00 Andrew Lenny
9 10.00 Bugail
16 10.00 W. J. Edwards
23 10.00 Rhidian Griffiths
30 10.00 Ifan Mason Davies

## Bedydd

Bedyddiwyd Gruff Ifan Jenkins, mab Dylan ac Eirian Jenkins, Tyncastell Pontarfynach, yn Eglwys Dewi Sant ar 31 Awst.

## Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yr Eglwys nos Fercher, 1 Hydref yng ngofal Y Parchedig Andrew Loat a'r Parchg Heather Evans.

Y bregethwraig wadd oedd y Parchg Cecelia Charles, y Borth a'r organydd oedd Mr Maldwyn James. Braf oedd gweld cynifer dda o bobl yn y gwasanaeth. Mi addurnwyd yr Eglwys yn hyfryd. Cyfanswm y casgliad oedd £80 ac mi roddwyd cyfraniad a thiniau bwyd tuag at Banc Bwyd y Jubilee. I ddilyn cafwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb am eich cymorth a'ch cyfeillgarwch ym mhob ffordd.

**I'r dyddiadur**
**Rhagfyr 5 Nos Wener**
Noson Goffi a Raffl Fawr
Adloniant gan Barti Camddwr
Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7

**Rhagfyr 21 Nos Sul**
Gwasanaeth Carolau
Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6

## Sioe Capel Bangor

**Cystadleuaeth Sioe 2015**
**Gwaith Llaw**
1.Gorchudd i ffôn symudol
2.Tegan wedi ei wau
3.Clustog ddim yn fwy na 18 modfedd sgwâr
4. Eitem mewn "patchwork"
5.Eitem mewn pwyth croes
6.Addurn Nadolig

**Crefftau**
1. Eitem o emwaith
2. Bwrdd adar
3. Eitem o grochenwaith
4. Eitem o defnydd wedi ei ail-gylchu
5. Cloc
6. Eitem o waith metal.

Os am fwy o fanylion cysylltwch â Beti Daniel 01970 880691 neu betidaniel@yahoo.co.uk


Heather Evans gyda phlant yr Eglwys (Mia, Nannon, Luned, Cortney,) a Mr Dai Powell, Warden yr eglwys.

## Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadaui i Neula Ellis Jones, Old Vicarage, ar ennill gwobr arbennig am ei gwaith yn y pynciau Saesneg a Chelf yn ei blwyddyn gyntaf yn Ysgol Pen-glais. Cyflwynwyd y wobr iddi yn y Neuadd Fawr, Canolfan Celfyddydau , ym mis Medi. Dal ati Neula.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Meic a Liz Collison, Dolcniw, ar ddod yn hen Daid a Nain, yn ddiweddar. Ganwyd merch fach. i Emma (eu hwyres) a Shayne, chwaer i Romany, seithfed gor wyr felly i Meic a Liz. Maent yn byw yn Swydd Essex ac er gwybodaeth mae Emma yn ferch i'w mab Luke, a'i briod Clare. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## Oedfa'r teulu

Cynhaliwyd gwasanaeth y teulu, yng nghapel Pen-llwyn ar Sul y 7fed o Hydref, dan arweiniad y gweinidog. Er mai siomedig oedd y gynulleidfa y tro hyn, cymerwyd at y rhannau arweiniol, fel arfer, gan blant yr ysgol Sul. Cawsant fidio o stori "Y Samariad Trugarog" ac yna mynd i'r festri i gwblhau taflenni wedi eu paratoi gan y gweinidog, yn ystod gwasanaeth yr oedolion.

## Ordeinio

Ar Fedi 27, yn nhymor Sant Mihangel a'r Holl Angylion, cafodd Heather Evans o Gapel Bangor ei hordeinio gan yr Esgob Wyn yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Ganwyd Heather yn Lerpwl i deulu o Gymru ac yno y cafodd ei haddysg gynradd ac uwchradd tan iddi symud i Ysbyty Alexandra yn y Rhyl i hyfforddi fel nyrs. Ar ddiwedd ei hyfforddiant symudodd i weithio i Ysbyty Bron-glais, Aberystwyth. Bu'n gweithio fel Rheolwr Nos ar Ddyletswydd a Sister ar ward orthopedig hyd nes iddi ymddeol yn 2010. Mae'n dal i weithio fel aelod o'r banc nyrsus. Bu'n byw yng Nghapel Bangor ers 1988 ac ar ôl hyfforddi gyda'r Eglwys yng Nghymru mae hi'n gwasnaethu fel Diacon yn y plwyfi wedi'u cysylltu o Lanbadarn Fawr, Capel Bangor, Elerch a Phenrhyn-coch. Llongyfarchiadau a dymuniadau Gorau i chwi.

## Adref

Mae Mr Sid Clench, Poplars, 'nawr yn ôl yn ei gartref, ar ôl cyfnod o fod yn yr ysbyty, am driniaeth ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar. Dymuniadau da iddo am lwyr wellhad.

## GOGINAN

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar gyfer ein cyfarfod ym mis Hydref, teithiwyd i Aberystwyth ac i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno wrth y drws yn ein croesawu roedd Emyr, ein tywysydd a'n harweinydd am y noson a Brian. Yn gyntaf aethom i'r Drwm ac yno eglurwyd bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn un o'r chwe llyfrgell adnau cyfreithiol a'r hyn a olygir wrth hynny. Dangoswyd ffilm a oedd yn gyflwyniad i'r Llyfrgell a soniwyd am rai o wasanaethau'r Llyfrgell ac am y digwyddiadau a gynhelir yno.

Oddi yno aed ar daith o amgylch yr adeilad. Gwelsom gadair eisteddfodol a chlywsom ychydig o'i hanes. Edrychwyd ar rai o luniau'r ffotograffydd Geoff Charles. Cafwyd cyfle i sylwi ar brydferthwch un o'r ystafelloedd a'i chynnwys a chlywed pam y sefydlwyd y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth dros ganrif yn ôl.

Ymlaen â ni i ymweld â'r storfa lle cedwir lluniau a chafwyd cyfle i weld rhai ohonynt a chlywed pytiau diddorol amdanynt. Ar ein taith manteisiai Emyr ar bob cyfle posibl i sôn am yr hyn roedd y Llyfrgell yn ei gynnig i'r cyhoedd a'n hannog i ddychwelyd a defnyddio'r gwasanaethau. Ar ddiwedd ein hymweliad cafwyd cyfle i gael cipolwg ar Arddangosfa Dylan, sef Dylan Thomas sy'n parhau nes 20fed Rhagfyr.

Crewyd awydd yn nifer o'r aelodau i ddychwelyd yn y dyfodol agos i un o brif sefydliadau Cymru sydd o fewn cyrraedd hwylus iddynt. Diolchodd Beti Daniel i Emyr a Brian am noson ddiddorol yn llawn gwybodaeth ac am y cyfle o gael gweld rhannau o'r llyfrgell a rhai o'r trysorau a geir yno.

Y gyrchfan nesaf oedd Llety Parc ac yno cynhaliwyd cyfarfod busnes byr. Croesawyd Mary Jones a Gwenda Morgan yn ôl atom wedi cyfnod o waeledd gan Eirwen McAnulty. Yna mwynhawyd swper blasus. Beti Daniel a Llinos Jones oedd enillwyr y gwobrau raffl.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



### Priodas

Priodwyd Richard, mab Dai a Katrina Thomas, Ffynnon Dderw, Llanbadarn a Caryl, merch Alun a Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont ar Awst 16 yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. Dathlwyd y brecwast yn Y Marine ac fe dreuliodd y ddau eu mis mêl ar fordaith i Norwy.

Maent wedi ymgartrefu yn Bryn Bugail, Nantyrarian lle mae Richard yn ffermio gyda'i dad ac mae Caryl yn gweithio yn Lluest - darn o'r brifysgol. Pob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

### Pen blwydd Hapus

Hoffwn ddymuno pen blwydd hapus i Mair Evans, Idris Villa, a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn naw deg ar Dachwedd y cyntaf. Fel Mair, Y Post mae amryw yn ei adnabod gan iddi hi gyda'i diweddar ŵr Defi Huw redeg y Swyddfa bost am flynyddoedd maith yng Ngoginan.

Un arall sydd wedi dathlu ei ben blwydd yn ddiweddar oedd John Howell, Arfon House, mae nawr yn medru cael y bws am ddim! Dymuniadau gorau iddo.

### Gwella

Pleser yw cael nodi fod Maud Evans, Bronwydd, yn gwella ar ôl ei anhwylder diweddar. Llwyr wellhad buan iddi.

### Bwlch Nantyrarian

**Diwrnod Calan Gaeaf arbennig i Goedwigwyr Ifanc**
Dewch draw i gerfio pwmpen, peintio wynebau, i fwynhau gêmau calan Gaeaf a straeon ysbryd!
£4 y plentyn (yn cynnwys pwmpen i'w cherfio a bwffe bys a bawd)
**Dydd Mercher 29 Hydref**
5.30pm – 7.30pm
Mae lleoedd yn brin felly mae'n hanfodol archebu ymlaen llaw, ffoniwch goedwigwr ar 01970 890453 i archebu. Gan amlaf mae hwn yn weithgaredd hwyliog ond hynod o fudr, dewch a ffedog gyda chi! Croeso ichi ddod yn eich gwisg ffansi a chofiwch ddod a fflachlamp.

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Y BORTH

### Cofio Ann Lloyd – un o'r rhai cyntaf yn Belsen

Bu farw Ann Lloyd ar Fedi 9. Diolch i'w nith am y deyrnged ac i olygyddion *Perthyn:misolyn Capel y Morfa, Aberystwyth* am ganiatâd i'w gyhoeddi.

Ganwyd Agnes, neu Ann fel y dymunai gael ei galw, yn blentyn hynaf o chwech i Mary a John Lloyd a hynny ar ddydd olaf 1917. Dyma ran o gerdd a ganodd William Owen, bardd lleol, ar ei genedigaeth:

Dydd olaf y flwyddyn,
Yn wylaidd ei thôn
Daeth wyres fach annwyl
I aelwyd Ty'n lôn; ...
Dymuno wnaf innau,
Er lleied fy nawn,
O oreu Rhagluniaeth
Eu phiol fo'n llawn.

Yn Rhostryfan, ger Caernarfon, y preswyliai'r teulu ar y pryd ond pan yn 14 fe symudodd Ann a'i theulu i Benbedw. Yn fuan daeth y teulu yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg gan fynychu Capel Cymraeg Laird Street.

Roedd y teulu yn hynod o gerddorol ac fe fuont yn cystadlu yn gyson mewn eisteddfodau. Fe sefydlodd y pedwar plentyn hynaf, o dan arweiniad ei chwaer Ann a gyfeiliai iddynt ar y delyn, barti o'r enw Llwydiaid y Bedw. Fe fuont yn perfformio ar hyd Gogledd Cymru ac yn ardaloedd Penbedw a Lerpwl. Roedd ganddynt, hyd yn oed, sioe eu hunain ar y radio – rhaglen a fyddai'n cael ei recordio yn BBC Bangor.

Ar ôl y rhyfel cafodd Ann ei chyflogi gan Weinyddiaeth Cymorth ac Adfer y Cenhedloedd Unedig (UNRRA) – swydd a'i galluogodd i fod yn un o'r rhai cyntaf i fynd i wersyll Belsen. Prin oedd ei sgwrs am y profiad erchyll hwnnw.

Yn 1949 symudodd i Aberystwyth gan weithio fel rheolwraig Pantyfedwen 22 yn y Borth am flynyddoedd. Roedd hi'n delynores heb ei hail a bu'n cyfeilio'n gyson mewn eisteddfodau a chyngherddau gan gynnwys perfformio yn Neuadd Albert Llundain. Roedd ganddi barti penillion yn y dre a byddai'n mwynhau yn fawr darllen llenyddiaeth Gymraeg – yn wir, doedd dim yn well ganddi na llyfr da.

Wedi i Ann ymddeol aeth i fyw yn Bow Street am ychydig ac yna i Lys yr Hen Ysgol yn Aberystwyth. Bu'n aelod ffyddlon o Gapel y Morfa hyd i'w chof ballu.



Odlau Rheidol . Rhes gefn: Eirlys Thomas (Jones), Elizabeth Hughes, Phyllis, Margaret Davies (Lewis), AJJ, Mair Thomas, Eirlys Healy ( Morgan), Dafydd Oliver, Jane Davies (Edwards), Eluned Morris, Menna Williams (Jones); Rhes ganol: Margaret Jones (Williams), Mair Evans (Williams), Enid Jones (Oliver), Ann Lloyd, Megan Jones (Edwards), Mair Hughes (Cyfeilyddes); Rhes flaen: Tegwen Pryse (Ellis), Gwenda ( Bronnant), Elizabeth (Morris) adroddwraig, Emrys Thomas. Diolch i Mair Evans, Penrhyn-coch am y llun ac am enwi yr aelodau

Er yr hynaf o chwech, Ann fu fyw hwyaf. Mi fydd ei neiaint yn ei cholli'n fawr ac fe fydd yn cael ei chofio fel modryb lawen, caredig a thalentog.

### Eglwys St Matthew

Cawsom haf prysur gyda Gwyl Gelf a Chrefft ddiwedd Gorffennaf a phrynhawniau agored pob Sul yn ystod mis Awst gyda llawer o ymwelwyr diddorol. Cynhaliwyd hwyrol weddi am 5.00 pob nos Sul hefyd yn ystod yr haf. Ar Orffennaf 31ain roeddym yn hynod falch o groesawu Esgob Wyn. Cafodd pawb gyflei i siarad gydag ef. Yna cynhaliwyd gwasanaeth cymun dan ofal yr Esgob.

Cawsom wasanaeth teuluol ar Fedi 28ain dan ofal Canon Stuart Bell, yn cael ei gynorthwyo gan ieuenctid yr eglwys a dydd Sul Hydref 5ed oedd ein gwasanaeth diolchgarwch. Roedd yr eglwys yn edrych yn hyfryd gyd'ar holl flodau, ffrwythau a llysiau.

Bu cysylltiad hir rhwng pentref y Borth ac Eglwys St Matthew â Ysgol Uppingham yn Rutland. Ym Mawrth 1876 symudodd yr ysgol gyfan i'r Borth oherwydd epidemig teiffoid. Bu bechgyn yr ysgol yn byw yn y pentref tan Mai 1877. Traddodwyd y bregeth gyntaf yn Eglwys newydd St Matthew oedd newydd ei hadeiladu a'i chysegru gan y Prifathro, Y Parchg. Edward Thring ym 1878. Cyflwynwyd ffenestr y dwyrain yr eglwys gan yr ysgol ac mae Cymdeithas Cyn Fechgyn yr ysgol wedi bod ar sawl ymweliadâ'r pentref ar hyd y blynyddoedd. Cynhelir gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Ysgol Uppingham yn flynddol er cof am y cymorth a gafwyd gan drigolion y Borth flynyddoedd nol. Heddiw, yn dilyn y gwasanaeth diolchgarwch cyflwynodd cyn athro o'r ysgol – Mr Nigel Richardson-gopi wedi ei arwyddo i'r Eglwys o'i gyfrol am hanes yr ysgol - *Thring of Uppingham*. Rydym yn hynod ddiolchgar i Mr Richardson am hyn ac roedd yn bleser gan nifer o'r gynulleidfa siarad am Uppingham ar ôl y gwasanaeth.



Yn y llun (o'r chwith i'r dde): Mark Williams A.S., Mrs. Williams (mam Mark), Susan James (Warden yr Eglwys), Jo Jones (Trysorydd yr Eglwys), y Ficer y Parchg Cecilia Charles & Drs. Valerie & John Norrington-Davies sydd wedi gwneud llawer o waith yn ymchwilio i hanes yr eglwys a'i chysylltiad â Uppingham.

### Ysgol Sul St. Matthew

Cafodd yr Ysgol Sul amser prysur hefyd. Diwedd Mehefin death Sgowtiaid y Borth a'n cynorthwyo i adeiladu gerddi gyda blociau a thunell o bridd. Rhoddodd Yvette & Tim, rhieni un o ieuenctid yr eglwys, dunell arall ar ei ben. Gadewir planhigion – yn aml yn ddienw ger yr ardd i ni eu planu ac mae gennym erbyn hyn ardd anhygoel. Diolch mawr i Cira, yr arweinyddion a Sgowtiaid y Borth. Diolch hefyd i Phil, Andy a Rob am ddod a'r briciau a'r pridd.

Rydym hefyd yn filch o gyhoeddi fod ein cyfanswm terfynol am Race for life 2014 yn £1022. Diolch i bawb redodd ac i'r rhai a'n noddodd.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Bu'n haf trist i ni gan i ni golli dwy aelod annwyl iawn yn ddiweddar. Bu Mrs. Dorothy Horwood yn aelod ffyddlon am sawl blwyddyn ac er na fu Mrs. Thelma Francis gyda ni am gymaint o amser roeddym yn ei charu yn fawr. Bydd colled ar ol y ddwy ohonynt. Mae aelod arall - Dorothy Poole – wedi symud i fod yn nes at deulu a byddwn yn ei cholli hi hefyd.

Bu nifer o'n haelodau yn gweld Sister Act yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ac fe'i mwynhawyd gan bawb.

Taith ddirgel oedd ein taith yr hydref wedi ei threfnu gan John a Sarah o RJ Jones Travel. Fe gyrhaeddon ni yr Amgueddfa a'r Felin yn Drefach-Felindre am ginio a thaith. Gwylio DVD o'r teitl Saving Mr Banks wnaethom yn ein cyfarfod diweddaraf – roedd yna sawl hances boced yn cael eu rhannu!

Fe'n gwahoddir i gyd i ddathliad Canolfan Teulu y Borth dydd Sadwrn 18fed Hydref am 10.00 yn y Neuadd i gynorthwyo i fwyta y gacen ddathlu fawr.

Roedd un o'n haelodau – Eveline Jones - yn 95 yn Awst a chafodd o leiaf bum parti gwahanol i ddathlu y pen blwydd arbennig yma. Gwelir Eveline ar y dde efo'i ffrind da Ella yn un o'r phartion.



Roedd Bert Birch, sydd yn byw erbyn hyn ym Mryste, hefyd yn 95 yn yr haf a bydd ei wraig Nancie yn 95 y mis nesaf. Bydd Kathleen Jones sydd nawr yn Bodlondeb hefyd yn 95 y mis nesaf.



Cafodd plant a theuluoedd yr Ysgol Sul a'u teuluoedd ddiwrnod allan gwych yn Fantasy Farm, Llanrhystud i'w trip ysgol Sul blynyddol. Roedd pawb wedi mwymhau y chwarae, y llongau pedal, bwydo'r anifeiliaid, y reid tractor, y go-karts ac yn arbennig y bwyd a'r hufen ia.

Diolch i Fantasy Farm a'r holl oedolion fu'n cynorthwyo. Diolch arbennig i 'r Drs. Valerie & John Norrington-Davies am y fainc bicnic goffa hyfryd leolir ger yr Ysgol Sul. Bu'n wych gallu ei defnyddio pan oedd y tywydd yn caniatáu hynny.



### Brysia wella!

Gobeithio fod Rhys Hedd Pugh-Evans, Heol Clarach, yn gwella ar ôl ymweliad â'r ysbyty yn ddiweddar. Brysia wella Rhys!

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Ann Budge, Holmleigh ar Fedi 22 yn Ysbyty Bron-glais. Merch y diweddar Edward a Myfanwy Budge. Roedd wedi byw yn y Borth ar hyd ei hoes ac wedi gweithio yng Ngogerddan ers pan adawodd yr ysgol cyn ymddeol. Ar ôl i Gapel Annibynwyr y Borth gau bu'n aelod ffyddlon iawn yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Roedd yn hoff iawn o dynnu lluniau a cherdded.

Cydymdeimlwn â'i phartner Eric Lloyd. Cynhaliwyd ei hangladd yn Seion, Stryd y Popty, yn cael ei ddilyn gan gladdedigaeth ym mynwent Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn. Derbyniwyd rhoddion, er cof, tuag at Fad Achub y Borth d/o C Trefor Evans, Brongenau, Llandre.



Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Seren Smith ar ei phriodas a Ben Dimmack yn Eglwys St Matthew, y Borth ar 27 Medi.

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627






Brynhawn Sul olaf Medi, yn dilyn sgwrs gan David Parsons yn Oriel Nwy Aberystwyth, cynhaliwyd taith gerdded yn ardal llynnoedd Trefeurig dan arweiniad Angharad Fychan, yn canolbwyntio ar enwau lleoedd. Mentrodd 55 ar y daith, a chafwyd cyfle i glywed peth o hanes lluestai'r ardal yn ogystal ag ystyron rhai o'r enwau. Aeth y daith â ni o Lyn Pantyrebolion, heibio i lynnoedd Blaen Melindwr a Syfydrin, at lethrau Disgwylfa Fawr (lle manteisiwyd ar y tywydd braf i gael golygfa ehangach o'r ardal), cyn disgyn i luest Wenffrwd, a dychwelyd heibio i feini Y Fuwch a'r Llo a Maen Tarw. Trefnwyd y daith fel rhan o'r gyfres Mapio/Creu (sgyrsiau a theithiau cerdded yn ymateb i dirweddau Ceredigion trwy fapiau) gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd mewn partneriaeth â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac Oriel Nwy Aberystwyth.

Cynhelir y digwyddiad Mapio/Creu nesaf ar 19 Hydref 2014 pan fydd Mike Parker a Mary-Ann Constantine yn trafod hanes datblygiad twristiaeth ym Mhontarfynach ac yn yr Hafod, Cwmystwyth. Cyfarfod yn Oriel Nwy Aberystwyth am 11 y bore. Dewch â chinio gyda chi!

# CIC

Mae'r Haf drosodd a Thymor newydd CIC y Garn yn ail ddechrau. Roedd rhaid i ni ohirio y tymor diwethaf - oherwydd rhesymau gwahanol - y trip i Ganolfan Awyr Agored Llain ond diolch i Ceri Williams am ail drefnu, cafwyd y cyfle i fynd y tymor yma. Cafodd y plant lawer o hwyl yn kayakio a gwneud gwahanol driciau yn y cychod ond cafwyd mwy o hwyl yn chwarae yn y mwd ar byllau dŵr ar y cwrs rhwystrau. Mae gennym lot fawr i edrych 'mlaen am y tymor yma.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 16 Hydref | Taith Zoe i Uganda |
| **7 Tachwedd: NOS WENER** | Noson Dwrnament |
| 20 Tachwedd | Noson Goginio |
| 4 Rhagfyr | Carol a Cherdyn |
| 22 Rhagfyr | Canu Carolau yn Nhregerddan, Afallen Deg, Maes Gogerddan |









# Colofn Enwau Lleol

Ar fap o Gwmwd Perfedd a luniwyd gan Lewis Morris yn 1744 cofnodir lluest ym mhen uchaf dyffryn Salem Coedgruffudd o'r enw *Lluest y Trafle*. Ar lafar, câi ei hadnabod hefyd fel *Trawle* (am fod tuedd i *f* ac *w* ymgyfnewid fel yn *tywod*, *tyfod*). Yn anffodus, mae'r adfeilion o'r golwg ym mherfedd coed y comisiwn coedwigaeth bellach, ac anodd, os nad amhosibl cyrraedd atynt.

Ond beth yw ystyr yr enw *trafle*? Mae'n cynnwys yr elfen *gafl*, gair y byddwn yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ci newydd golli sgarmes neu un wedi digalonni: ci â'i gynffon yn ei *afl*, hynny ydy, ci â'i gynffon 'rhwng ei goesau ôl'. Yn achos Lluest y Trafle, mae'n ddisgrifiad perffaith o leoliad yr annedd mewn fforch ym mlaen y nant.

Er mai *Lluest y trafle* yw'r ffurf a nodwyd ar fap 6" yr Arolwg Ordnans yn 1891, mae'n ddiddorol sylwi i'r enw gael ei ystumio i *Luest yr Hafle* mewn argraffiadau diweddarach, a hynny o bosibl mewn ymgais i roi synnwyr i enw nad oedd ei ystyr yn amlwg.

Ceir enghreifftiau eraill o'r enw *Trafle* yng Ngheredigion: un i'r gogledd o Langeitho, ac un arall rhwng Talgarreg a Chwrtnewydd, ond ill dau wedi eu lleoli o fewn fforch mewn nant.

Ffurf ddeuol ar *gafl* a welir yn enw mynyddoedd *Yr Eifl*, sir Gaernarfon, yn golygu 'y ddwy fforch'.

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org


# Ac wedi elwch...

**Ymateb tri ddaw o ardal y Tincer ond yn byw yn yr Alban erbyn hyn i'r Refferendwm.**



'Fe fydd pethau'n newid yma waeth beth fo'r canlyniad.' Fel hyn yr oeddem ni fel teulu yn ein cysuro'n gilydd wrth iddi ddod yn amlwg fod yr ymgyrch dros annibynniaeth wedi methu. Ac yn wir, drannoeth y refferendwm, gwawriodd cyfnod newydd cyffrous yn hanes yr Alban. Y mae'n amlwg fod y weledigaeth o wlad wirioneddol ddemocrataidd a heddychlon sy'n sicrhau cyfiawnder i'r mwyaf anghennus yn ein plith wedi gafael yn nychymyg tua hanner y boblogaeth. Mae yma ddiddordeb newydd mewn gwleidyddiaeth, nid yn unig ymhlith yr ifanc a gafodd gyfle i bleidleiso am y tro cyntaf, a'r difreintiedig mewn dinasoedd fel Glasgow a Dundee a ddarganfu fod ganddynt lais, ond hefyd ymhlith miloedd o bobl gyffredin sydd wedi sylweddoli bod modd iddynt gyfrannu at greu cymdeithas well. Does gan y mudiad newydd ddim enw eto ond yn ystod yr wythnosau diwethaf mae cannoedd o bobl wedi bod yn ymgynnull mewn neuaddau ledled y wlad i drafod y ffordd ymlaen. Treblodd aelodaeth yr SNP a'r Blaid Werdd ac y mae miloedd wedi arwyddo deisebiadau yn galw ar i arweinwyr Westminster gadw at eu haddewidion am fwy o bwerau i'r Senedd. Gwelwyd cynnydd mawr hefyd, nid yn unig yn y rhoddion a dderbyniwyd gan y banciau bwyd, ond yn hefyd yn y nifer o wirfoddolwyr newydd. Ofn newid a'r ansicrwydd ariannol a ddeuai yn ei sgîl oedd yn uno llawer o'r rheini a bleidlesiodd 'Na' ond gobaith am well byd i bawb sy'n ysbrydoli'r criw cymysg sy'n dal i ymgyrchu dan faner 'Ie'.

**Nerys Ann Jones a'r teulu, Penrhiw, Dunblane** (**Bow Street**)




Profiad gwrthglimactig braidd oedd gwylio canlyniadau refferendwm annibyniaeth yr Alban yn stiwdio S4C yng Nghaeredin, wrth iddi ddod yn amlwg yn gynnar iawn bod yr ymgyrch 'na' wedi ennill yn gymharol gyffyrddus. Er na wnes i bleidleisio fy hunan, roeddwn wedi dilyn yr ymgyrch yn agos ac roedd gennyf ffrindiau a oedd yn ymgyrchu'n frwd o blaid y ddwy ochr. Roedd y mwyafrif o'r bobl yr oeddwn i'n siarad â nhw yma yng Nghaeredin yn erbyn annibyniaeth, fel y byddech yn ei ddisgwyl yn un o'r dinasoedd lleiaf cefnogol i'r syniad yn y wlad, ond o gerdded y strydoedd yn y dyddiau cyn y bleidlais byddai'n hawdd meddwl mai'r gwrthwyneb oedd yn wir. Roedd yr ymgyrch 'ie' yn llawer mwy amlwg, egnïol a brwdfrydig nag ymgyrch tawel 'na', ac roedd y ffaith eu bod mor agos at ennill yn llwyddiant yn ei hunan o ystyried y sefyllfa ychydig fisoedd ynghynt. Roedd ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl yr Alban ynglŷn â manylion y ddadl yn rhyfeddol, ac mae teimlad yma bod cyfle gwirioneddol i newid gwleidyddiaeth y wlad yn barhaol i gynnwys llawer mwy o'r boblogaeth. Mae diddordeb mewn gwleidyddiaeth wedi cynyddu'n syfrdanol – mae tua 1 o bob 100 Albanwr bellach yn aelod o'r SNP – ac mae'n sicr y bydd pawb yma'n gwylio'n ofalus i weld a fydd llywodraeth San Steffan yn cadw'r addewidion a wnaethpwyd yn y panig munud-olaf pan roedd buddugoliaeth 'ie' yn ymddangos yn bosibilrwydd gwirioneddol. Os na fydd gwleidyddion Llundain yn gwneud hynny, mae posibilrwydd gwirioneddol y gallai galw am refferendwm arall ddechrau tyfu, â nifer o bobl a bleidleisiodd dros 'na' y tro hwn wedi eu dadrithio gan addewidion gwag ac yn ystyried newid ochr. Mae'n debygol y bydd goblygiadau i Gymru yn sgil unrhyw newid cyfansoddiadol hefyd, felly peidiwch â meddwl y bydd y mater hwn yn diflannu o'r newyddion unrhyw bryd yn y dyfodol agos.

**Iwan Williams, - myfyriwr 3ydd flwyddyn yng Nghaeredin** (**Llandre**)

Siomedig oedd clywed fore Gwener, 19eg o Fedi, fod pobl yr Alban wedi gwrthod y syniad o annibynieth yn y Refferendwm. Tybiais y buasai'r canlyniad yn agosach, a hynny, mae'n debyg, am fy mod yn byw yng nghanol bwrlwm hyderus yr 'Ie' yn Glasgow. Cefais gamargraff o ymateb gweddill y wlad – er, mae'n debyg fod nifer yn simsanu hyd at y diwedd ac efallai wedi eu dylanwadu gan y cynwrf o addewidion funud olaf a ddaeth o San Steffan yn cynnig pwerau ychwanegol. Trist oedd sylweddoli fod y pedwar cyngor a bleidleisiodd yn gadarnhaol yn cynnwys ardaloedd tlotaf, mwyaf difreintiedig y wlad – yn adlewyrchu'r dyheu am newid, am chwarae teg, am hunan benderfyniad a'r llwyr wrthodiad o lywodraeth San Steffan er mwyn cael rhyw obaith am fywyd gwell. Ond roedd hi'n galonogol gweld 84% o'r boblogaeth yn pleidieisio, a'r trafodaethau yn ddwfn ac yn adeiladol o bob tu. Mae'r baneri a'r posteri 'Ie' yn araf iawn yn dod i lawr o ffenestri'r cartrefi yn fy nhalgylch i – 'dwi ddim yn meddwl mai dyma ddiwedd y stori i annibyniaeth yr Alban.



**Mabli Hall**
Minafon, Dole/Glasgow

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

Oedfaon Madog
2.00
*Hydref*
19 Bugail
26 John Gwilym Jones

*Tachwedd*
2 Bugail
9 Goronwy Prys Owen
16 Bugail
23 Terry Edwards
30 Christopher Prew

### I'r coleg

Dymuniadau gorau i Mari Havard, Ty Coch, Capel Dewi sydd ar ôl cymryd blwyddyn allan wedi mynd i'r coleg yng Nghaerdydd i astudio mathemateg.

### Pen blwydd hapus!

Pen blwydd hapus i Ruth Jên, Tal-y-bont, ar ddathlu ei phen blwydd yn 50.

# CLARACH

### Priodas Arian

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Dewi a Jane James, Gilwern, a fydd yn dathlu eu priodas arian ar 28 Hydref.

# DOLAU

### Wyres

Llongyfarchiadau i Gruffydd Aled ac Eimear Williams, Bronafon, ar enedigaeth wyres, Mari, merch i Brid a Price yng Nghaerdydd ar 18 Medi.




# Ysgol Craig yr Wylfa

### Mark Williams

Daeth Mark Williams AS i'r ysgol i ddiolch i'r plant a'r staff am eu gwaith caled dros adeg yr arolwg a llongyfarch yr ysgol am y canlyniad da. Roedd e hefyd wedi siarad gyda'r plant am ei ymweliad â Phatagonia. Mae plant cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gwneud gwaith ar y wlad ac felly wedi gallu gofyn cwestiynau diddorol iddo a chafwyd trafodaeth arbennig.


Mark Williams

### Trip Cyfnod Allweddol 2 i Gastell Henllys

Ar ddydd Llun Medi 15fed, aethon ni ar drip Ysgol i Gastell Henllys yn Sir Benfro. Teithion ni ar y bws ac wedyn aethon ni i gasglu Ysgol Tal-y-bont. Cyrhaeddon ni Castell Henllys am 10:30yb. Cerddon ni yn y peiriant amser a mynd nôl mewn amser 2000 flynyddoedd. Aethon ni i'r pentref Celtaidd. Mae nhw wedi rhedeg tuag aton ni a rhoi ofn i ni. Wedyn aethon ni i'r tŷ crwn. Ar ôl hynny aethon ni i helpu Bran i blethu'r pren i greu'r wal i adeiladu tŷ crwn. Defnyddiais fwd, dŵr a phorfa i wneud y wal ac roedd rhaid gwneud pêl a'i 'splatio' ar y wal. Ar ôl helpu Bran, aethon ni i helpu Olwen. Roedd Olwen wedi dysgu ni sut i wneud basged. Aethon ni i gael bwyd wedyn. Ges i frechdanau. Ar ôl cinio, aethon ni at ddynes arall a gwneud bara. I wneud bara roedd rhaid cael dau llond llaw o flawd a gwneud twll a rhoi dŵr mewn a chymysgu fe a gwneud pêl a'i rolio fe yn fflat. Roedd angen i ni wneud e 2094 gwaith. Ar ôl gwneud y bara, ges i baent ar fy wyneb ac aethon ni i weld tŷ'r pennaeth. Gwelais i gleddyf mawr. Wedyn, cerddon ni nôl at y bws a theithio adre. Roeddwn i wedi blino. Fy hoff ran o'r trip oedd gwneud y bara.
Gan Lauren Jones (Bl 6)


Castell Henllys



### Bore coffi Macmillan

Cafodd yr Ysgol fore coffi yn neuadd yr Ysgol ar fore Dydd Gwener 26ain o Fedi i godi arian ar gyfer elusen Macmillan. Roedd y staff a phlant y clwb coginio wedi creu cacennau ar gyfer y bore ac roedd yr ysgol ar agor i'r gymuned am awr lle'r oedd coffi, te a chacennau ar gael. Daeth llawr o bobl i gefnogi'r digwyddiad a chododd yr ysgol £155! Hoffwn i ddiolch i bawb wnaeth dod i gefnogi.


Bore coffi

### Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Miss Michelle sydd wedi cael swydd newydd gyda'r Tîm o Gwmpas y Teulu. Byddwn yn gweld ei cholli'n fawr yn Ysgol Craig yr Wylfa.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Castell Henllys

Y tymor yma, rydym yn edrych ar hanes y Celtiaid. Fel man cychwyn i'r gwaith, cafwyd ymweliad ar y cyd â Phenllwyn â Chastell Henllys. Wrth gyrraedd, cawsom ein cyfarch gan Aeronwy ac fe'n tywyswyd yn ôl i gyfnod y Celtiaid. I fyny ar y Bryngaer, treuliodd y disgyblion y diwrnod yn dysgu am fywyd yn Nghyfnod y Celtiaid. Gwelwyd hwy yn malu blawd, pobi bara, taflu gwaywffyn, paentio wynebau ynghyd ag adeiladu welydd. Trwy lwc, cafwyd diwrnod sych a braf ac o ganlyniad bu'r disgyblion wrth eu boddau. O ganlyniad i'r ymweliad, cafwyd stôr o wybodaeth arbenning fel man cychwyn i'n gwaith tymhorol. Ein tasg nesaf ydy adeiladu model o bentref Celtaidd. Edrychwn ymlaen i weld ein pentref.

### Morrisons

Fel rhan o waith y Cyfnod Sylfaen y tymor yma, teithiodd y dosbarthiadau i lawr i Archfarchnad Morrisons. Cafwyd croeso arbennig gan y staff i gyd a bu'r disgyblion wrthi yn gweld sut mae archfarchnad yn cael ei rhedeg. Cafwyd cyfle i weld yr holl siop cyn mynd ati i brynu nwyddau. Cafwyd nifer o eitemau gan y siop ac aethpwyd ati i wneud pitsa yr un ar ôl dychwelwyd i'r ysgol. Diolch i Reolwyr Morrisons am y trefniadau ac edrych ar ein holau.

### Agor y Llyfr

Croesawyd aelodau o Gapel Horeb atom yn ystod y mis i gyflwyno 'Agor y llyfr'. Daeth criw ohonynt i actio storïau amrywiol. Mae hyn wedi dod yn arferiad erbyn hyn ac mae'n gyfle i ddod a storïau o'r Beibl yn fyw i'r disgyblion. Diolch i Judith am y trefniadau.

### Trawsgwlad

Aeth holl ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 i lawr i Gaeau'r Ficerdy i gymryd rhan yn rasys trawsgwlad y Cylch. Gwelwyd dros 80 o ddisgyblion yn cymryd rhan ym mhob ras. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhedeg. Llwyddodd y canlynol i orffen yn y deg uchaf o fewn eu rasys unigol. Byddant yn awr yn cystadlu yn rasys Trawsgwlad y Sir yn y flwyddyn newydd. Da iawn chi Cai, Llion, Eddie, Clay a Seren

### Taith Tractor

Ar fore dydd Sul sych ym mis Medi, gwelwyd golygfa anhygoel ym maes parcio'r ysgol, sef llwyth o dractorau. Daeth y criw ynghyd i godi arian i'r ysgol. Cyn y diwrnod, bu disgyblion a rhieni yr ysgol wrthi yn casglu noddwyr ar gyfer y daith. Cyn cychwyn ar eu taith, cafwyd brechdanau cig moch a phaned a drefnwyd gan rieni'r ysgol. Cafwyd stondin gacennau yno ynghyd a raffl. Erbyn iddynt ddychwelyd yn y prynhawn roedd y glaw wedi dychwelyd. Llwyddwyd i godi swm da i goffrau'r ysgol. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y fenter mewn unrhyw ffordd.



Criw Horeb yn 'Agor y Llyfr'



Disgyblion yr ysgol a ddaeth yn y deg uchaf yn Nhrawsgwlad y Cylch



Sesiwn Karate gyda Sioned a Tracey yng Nghlwb yr Urdd




Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn edrych ar ailgylchu yn y Pentref

# Clwb Blodau Aberystwyth a'r Cylch

Ar ddechrau tymor newydd a blwyddyn dathlu hanner cant o flynyddoedd o fodolaeth y Gymdeithas croesawodd y Cadeirydd, Christine Gilbert, aelodau hen a newydd cyn cyflwyno y Siaradwr Gwadd am y noson, sef Donald Morgan, Blodau'r Bedol, Llanrhystud, atom i wneud arddangosfa o safon uchel a amrywiaeth o flodau tymhorol yr Hydref.

Yn ei chyflwyniad disgrifodd Christine Donald fel Llywydd y Gymdeithas, Arddangoswr blodau efo NAFAS, Beirniad a Chystadleuydd ac Aelod gwerthfawr o'r Gymdeithas sydd yn rhoi gwledd pob tro maent yn arddangos eu crefft.

Crewyd pum arddangosfa efo dau osodiad i sawl un ac ar ddiwedd y noson rafflwyd y cyfan. Talwyd y diolchiadau gan Lynne Lloyd gan longyfarch Donald ar greu campwaith mewn sawl ffurf wahanol.

Mae Clwb Blodau Aberystwyth yn cwrdd yn Neuadd Pentref Llanfarian ar y 3ydd nos Fawrth o bob mis am 7.30 ac mae croeso cynnes yn disgwyl aelodau newydd ac ymwelwyr (cost ymwelwyr yw £ 4.00).

Dyma beth sydd ymlaen tan y Dolig

Hydref 21 Gweithdy ffo Julie (gynt o Expressions yn Aberystwyth) yn Neuadd Llanfarian

Tachwedd 13 Noson Agored Arddangosfa Nadolig gan Jackie Charnock Yr Amwythig 6.45 am win I ddechrau am 7.30 yn Neuadd Ysgol Gyfun Penweddig.

Rhagfyr 6ed Gweithdy Agored yn Neuadd Llanfarian BLODAU NADOLIG rhwng 1 a 5 y pnawn cost £15.00

Rhagfyr 17 am 7.30 yn Neuadd Llanfarian Arddangosfa gan Kevin Davies (Kevin y Blode Aberystwyth gynt)

Croeso cynnes i bawb. Am fwy o fanylion neu archebu lle ar y Gweithdy cysylltwch â Donald, Blodau'r Bedol ar 01974 202 233 neu 07763282548.

y tincer
ytincer@googlemail.com

# Ysgol Pen-llwyn

### Ymweliad â Sweden

Mi fuodd Miss Davies a Miss Williams am daith gyfarfod gyda'n partneriaid yn Sweden yn ddiweddar. Fe gawsant brofiadau cyfoethog iawn gan gael y siawns i ymweld â nifer o ysgolion. Roedd yn ddiddorol cael cymharu'r system addysg yno gyda'n un ni yng Nghymru. Mae'r disgyblion wedi cael cyfle i ddod i adnabod y wlad yn well yn barod trwy wasanaeth arbennig. Mae'n amlwg fod Gothenberg wedi gwneud tipyn o argraff gan fod Miss Davies yn sôn am ddychwelyd yno ar wyliau.
Y cam nesaf yn y prosiect Comenius fydd cyd ysgrifennu stori gyda phartneriaid o wledydd eraill cyn i rai o'r disgyblion gael y cyfle i ymweld â phartneriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon y flwyddyn nesaf.


Harbwr Gothenberg


Rhyfelwyr Celtaidd Pen-llwyn

### Ymweliad â Chastell Henllys

Mae plant dosbarth 2 yn astudio'r Celtiaid am yr hanner tymor cyntaf. Fel sbardun i'r astudiaeth fe aethom am drip i Gastell Henllys yn Sir Benfro. Mwynhaodd y plant nifer o brofiadau cyfoethog gan gynnwys adeiladu wal i dŷ Celtaidd, gwehyddu a chael eu hwynebau wedi paentio fel rhyfelwr Celtaidd. Mae'r safle yng Nghastell Henllys yn un anhygoel ac yn rhoi gwir flas o fywyd gymaint o flynyddoedd yn ôl. Ers dychwelyd i'r Ysgol mae'r disgyblion wedi bod wrthi'n cwblhau llawer o waith ar y pwnc - mae'r ffaith eu bod wedi rhoi penglogau wrth y glwyd i ddychryn gelynion wedi gafael yn eu dychymyg ychydig !


Taith ar gwch

### Rhedeg Traws Gwlad

Mi gafwyd prynhawn hyfryd yn ystod cystadleuaeth traws gwlad ysgolion Aberystwyth yn ddiweddar. Fe redodd pob disgybl yn nosbarth 2 mewn ras. Mi oedd yn brofiad arbennig iddynt gael rhedeg ymysg cymaint o blant eraill. Tra bod pawb i'w cymeradwyo ar yr ymdrech a roddwyd fe ddylid nodi fod Llŷr Evans o flwyddyn 6 a Carys Thomas o flwyddyn 5 wedi gwneud yn arbennig o dda ac yn cael mynd i redeg yn erbyn goreuon y Sir cyn bo hir. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

### Llysgennad Efydd

Mae Llŷr Evans wedi ei ddewis fel llysgennad efydd y flwyddyn yma ac mi fydd yn gyfrifol am drefnu gêmau i'r plant yn wythnosol yn ystod amser chwarae. Mi fydd Craig Edwards o flwyddyn 5 yn ei gynorthwyo.


Ysgol Skogome, Gothenberg

# Ysgol Rhydypennau

### Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau taith gerdded o gwmpas Ty'n Rhos yn ystod y noson gyntaf dan arweiniad Mr Rees. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

### Cynaeafu cynnyrch yr ardd

Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn ystod mis Medi. Rydyn ni wedi bod yn cynaeafu'r llysiau sy'n tyfu yn ein gardd ni yn yr ysgol. Mae llawer o lysiau gwahanol yn tyfu yn yr ardd, pethau fel moron, tatws, ffa dringo a phanas. Yn y ty gwydr mae tomatos blasus, ciwcymbyrs hir a phupur gwyrdd. Mae afalau yn tyfu yn y berllan ac eirin hefyd.

Yn ystod y mis rydyn ni wedi casglu'r llysiau sydd wedi aeddfedu. Roedd llawer o bethau yn barod felly penderfynon ni wneud siop lysiau. Rhoddon ni fwrdd y tu allan i ddrws yr ysgol a rhoddon ni boster yn y ffenest. Am hanner awr wedi tri daeth llawer o rieni i brynu'r llysiau. Daeth llawer o bobl i brynu'r llysiau. Cyfanswm yr arian oedd £19.60.

Diolch yn fawr iawn i Mr Tudor Gethin am ein helpu ni yn yr ardd bob blwyddyn.

Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i'r rhieni a'r plant a fu'n cynnig cymorth i gynnal a chadw llecynnau amrywiol ar dir yr ysgol. Tociwyd a thorrwyd y llwyni a chwalwyd y chwyn yn yr ardd ac o gwmpas yr ardd lysiau.

### Beth yw'r broblem?

Bu blwyddyn 4, 5 a 6 yn mwynhau sioe ddifyr am Robert Racorde yn ddiweddar; dyma'r mathemategydd o Gymro a wnaeth ddyfeisio symbol yr hafal (=). Mewn sioe a oedd yn rhyfeddu, diddanu ac yn addysgu bu'r plant yn cynorthwyo 'Robert' â chyfres o broblemau mathemategol gweledol a rhyngweithiol. Roedd y sesiwn yn gymorth uniongyrchol hefyd tuag at y Profion Rhifedd Cenedlaethol a fydd yn digwydd fis Mai nesaf.

### Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar Ddydd Gwener 3ydd o Hydref ar gaeau'r Ficerdi. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 63 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:-

Lleucu Siôn bl 3 (3ydd); Jac Wilmot bl 3 (5ed); Sam Ormrode bl 3 (8ed); Lily Lyons bl 5 (2il); Megan Glover bl 5 (7ed); Lydia Powell bl 6 (1af) Griff Lewis bl 6 (4ydd); Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion yn y flwyddyn newydd. Pob Hwyl iddynt!

### Gwasanaethau

Mae Y Parch. Richard Lewis, Y Parch. Andrew Lenny a'r Parch. Wyn Morris bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor hwn. Hoffa'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

### Hoci

Mae'r ddau dîm hoci wedi cael dechreuad campus i'r tymor. Dyma'r canlyniadau diweddaraf:-

Rhydypennau A 3 v Ysgol Gymraeg A 1
Rhydypennau A 4 v Llanilar 1
Rhydypennau A 3 v Penrhyncoch 2
Rhydypennau B 3 v Penrhyncoch 0
Rhydypennau B 1 v Padarn Sant 1
Rhydypennau B 3 v Llanilar 1



Robert Recorde' gyda rhai o'r plant.



Gwerthu cynnyrch o'r ardd yn y siop lysiau.



Y grŵp cynnal a chadw yn yr ardd

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n lliwio llun y tywysog dewr ar ei geffyl. Dyma'r enwau: **Anest** Erwan Jackson, Bow Street; **Harri** Van de Vyver, Y Fenni; **Lisa** Sills-Jones, y Borth; **Betsan** Downes, Penrhyn-coch. Diolch yn fawr hefyd i ti, **Lois** Efa Thomas, Penrhyn-coch, am dy lun hyfryd o'r dolffin.


Dy enw di, **Lisa**, ddaeth o'r het yn gyntaf. Da iawn, wir!

On'd oedd y tywydd yn hyfryd drwy fis Medi! Dwi'n hoff iawn o'r adeg hon o'r flwyddyn. Gobeithio eich bod wedi bod yn hel cnau a mwyar drwy gydol mis Medi, gan adael digon ar ôl ar y llwyni a'r coed i'r adar a'r wiwerod eu bwyta, wrth gwrs. Mae'n bwysig i ni gofio amdanyn nhw drwy fisoedd yr hydref a'r gaeaf. Dwi wrth fy modd yn hel mes, ac yn rhyfeddu bod mesen fach yn medru tyfu'n goedwen dderwen fawr, cryf! A fyddwch chi'n dathlu Calan Gaeaf ar ddiwedd y mis? Byddaf yn siŵr o weld ambell wrach, sgerbwd neu ddewin yn crwydro ardal *y Tincer* ar y noson honno! Tybed a oes gennych chi hoff wrach neu ddewin o fyd llyfrau neu ffilmiau? Fy hoff wrach i yw Rwdlan, er ei bod yn ddrygionus yn aml iawn, ac yn chwarae triciau ar bobl Gwlad y Rwla. Ydech chi'n gwybod pwy yw Madam Rolanda Hooch? Hi yw'r wrach glyfar sy'n rhoi gwersi hedfan i Harry Potter a'i ffrindiau yn Ysgol Hogwarts. Ac mae gan ardal *Y Tincer* ei gwrach ei hun, sef gwrach Cors Fochno, ger y Borth. Mae'r llyfr *Teigr yn y Gegin* (Gomer) yn cynnwys cerdd amdani, neu edrychwch ar y we am ei hanes.



Lisa Sills-Jones

Y mis hwn, beth am liwio llun y teulu'n casglu dail ac yn mwynhau lliwiau'r hydref? A fedrwch chi weld y gwningen yn sbecian? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 372 | HYDREF 2014